# Y BONT

**Rhifyn 82 | Haf 2022**
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
www.clybiauplantcymru.org



## Cynhadledd a Sermoni Wobrwyo Allysgol 2022

### A ydych chi'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol?"

### Pwysigrwydd cynllunio strategol

### Golwg newydd ar Chwarae Cysefin

### Hanfodion Llywodraethu

### Tipyn Bach o Gymraeg

### Technoleg a Chwarae

# NÔL I'R HANFODION

Cwmni cyfyngedig
drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio
mewn partneriaeth â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Rhifyn 82 Haf 2022

## Yn y rhifyn hwn...


Llythyr gan y Brif Swyddog Gweithredol.....2 & 3
Ffocws ar Orllewin Cymru.....4
Cynllunio ar gyfer y dyfodol.....5
Ffocws ar Ogledd Cymru.....6 & 7
Ffocws ar De Dwyrain Cymru....8 & 9
Cynhadledd Gwaith Chwarae......10
Diwrnod Chwarae 2022.....11
Tyfu'ch Gwledd eich Hun......12 & 13
Cymraeg.....14
Sylfeini Llywodraethiad.....15
Hyfforddiant.....16
Egwyddorion Gwaith Chwarae.....17
Gemau Traddodiadol.....18
Iechyd.....19
Prosiectau.....20&21
Safonau Gofynnol Cenedlaethol.....22&23
Cynhadless a Wobrwyo 2022...24&25
Cynllunio Strategol.....26
Codi Arian.....27
Cwrdd â'r Clwb.....28
Cwrdd â'r' Gweithwyr Chwarae...29
Gweithgareddau.....30



Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.



Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260



Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant Allysgol...



Croeso i'n newyddlen ar ei newydd wedd, lle byddwn yn mynd yn ôl i'r hanfodion ac yn atgoffa ein hunain mai **2022 yw blwyddyn chwarae, gweithio a bod gyd*dau*'n gilydd**.

Yn rhan o fynd yn ôl i'n hanfodion ein hunain, fe sylwch ein bod wedi mynd yn ôl i adolygu ein brandio a'n logo. Roeddem yn teimlo bod angen ei adnewyddu wedi cyfnod o 20 mlynedd, i sicrhau ei fod yn ddarlun gwell o'r hyn yr ydym yn ei wneud fel cyfundrefn, a bu cryn dipyn o newid yn y blynyddoedd a aeth heibio. Rydym wedi gweithio gyda Designdough i adolygu pwy yw ein cynulleidfa ac wedi dwyn i fodolaeth ddelwedd newydd sbon ar ein cyfer.

Rydym hefyd, yn unol â'n cynllun strategol, wedi edrych ar yr hyn yr ydym yn ei wneud i gefnogi'r gymuned Ofal Plant Allysgol drwy Gymru benbaladr.

### Annog annibyniaeth

Rydym yn galluogi, yn grymuso ac yn annog ein cymuned o glybiau i gredu yn eu galluoedd eu hunain. Gan gynnig cymorth yn ôl yr angen, rydym yn rhoi'r cyfle iddynt gymryd – â balchder – berchnogaeth o'u Clybiau Gofal Plant Allysgol. Rydym am weld ein Clybiau Gofal Plant Allysgol yn ffynnu, ac rydym yn edmygu'r effaith ryfeddol y maen nhw, a'n cymuned o glybiau, yn ei chael ar brofiadau plant.

Gwydn | Dealltwriaeth | Yn Hwyluso

### Fel llais y sector

Mae ein hangerdd yn ddi-baid, yn ddi-syfl ac yn benderfynol. Ymegnïwn i wneud gwahaniaeth sylweddol o fewn y sector Gofal Plant Allysgol, drwy ein harbenigedd a gwybodaeth ddiysgog.

Gyda'n dycnwch diymwad, sicrhawn fod plant yn cael y Gofal Plant Allysgol gorau posibl. Drwy fynd ati i wrando ar ein cymuned o glybiau, a gwneud hynny'n gyson, ni yw'r llais sy'n ei hyrwyddo ac yn ei chynrychioli i'r llywodraeth ac awdurdodau lleol.

Collaborative | Powerful | Tenacious

### Gadewch i blant fod yn blant

Mae rhywbeth ynghylch hyn – dyna'i gyd. Y sŵn, yr antur, y chwerthin neu'r dagrau – rydym yno ar ei gyfer. Dyma'u hadeg nhw eu hunain i chwarae – wedi eu harwain yn rhydd a diderfyn.

Rydym ni'n rhan annatod o'u stori, ac rydym yn gwneud y gorau o hynny.

Rhydd | Cynhenid | Cyffroi

### Rhoi lle diogel (i chwarae)

Ymegnïwn i rymuso ein cymuned o glybiau drwy gyflenwi cefnogaeth o ansawdd sy'n ymestyn y tu hwnt i'r clybiau eu hunain.

Mae'n ddyletswydd arnom i gefnogi ein haelodau a'n clybiau. Rhown sylfaen gadarn o wybodaeth a hyfforddiant iddynt er mwyn iddynt ddarparu Gofal Plant Allysgol ystyrlon. Sylfaen sy'n sefyll gydol y gweithredu dyddiol a thu hwnt.

Mae'n destun balchder i ni ein bod wrth law ac ar gael ar unrhyw adeg i ateb y galw.

Cydymdeimladol | Diogel | Arweiniol

Yn y rhifyn hwn, wrth i ni ddod allan o'r pandemig a dysgu byw gyda Covid-19 fel rhan gyffredin o'n bywydau, rydym yn canolbwyntio ar yr hyn y mae angen i ni ei wneud i adfywio. Rydym yn cymryd yr amser i fynd yn ôl i'r hanfodion, cofio'r pethau hynny y gallem fod wedi edrych heibio iddynt dros y 2 flynedd ddiwethaf, tra buom wrthi'n canolbwyntio ar reoliadau, cyngor ac arweiniad ar gadw'n hunain yn ddiogel.

Fel cyfundrefn, rydym wedi cael amser gyda'n gilydd fel tîm cyfan o staff i adolygu ein blwyddyn ddiwethaf, pa mor dda yr ydym wedi cyflawni yn erbyn ein Cynllun Strategol, a luniwyd i gefnogi'r sector Allysgol. Mae'r adolygiad hwn wedi ein galluogi nid yn unig i ystyried ein cyflawniadau, ond ymhle y mae angen i ni ddiwallu anghenion y sector, ac rydym wedi llunio cynllun gwaith am eleni sy'n canolbwyntio ar yr hyn yr ydych chi fel clybiau a Gweithwyr Chwarae wedi dweud bod arnoch eu hangen.

O dan ein **gweledigaeth** – Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu, a thrwy gyflenwi ein **cenhadaeth** – i fod yn llais Gofal Plant Allysgol yng Nghymru, gan gefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant o ansawdd, sydd yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn bodloni anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae'n dal gennym 4 nod strategol:

### Llywodraethiad : Cynaliadwyedd : Hyfforddiant : Yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg

Byddwn, o fewn yr amcanion hyn, yn cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio; byddwn yn chwilio am gyfleoedd i'n cymuned feithrin gwydnwch a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael yn y cynlluniau newydd niferus sy'n datblygu. Gwnawn hyn er mwyn gweld ein cymuned yn tyfu er mwyn cefnogi eu cymunedau i **chwarae, gweithio a bod gyd*dau* gilydd yn 2022**.

Nid yw ein hadnewyddiad o'n brand yn gyflawn eto, byddwn yn cyflwyno gwefan newydd sbon a Rheolwr Perthynas Cwsmeriaid er mwyn ein galluogi i wella ar ein cyfathrebu a'n rhyngweithio â'n cymuned.

Byddwn yn eich cefnogi chi, ein cymuned, i wella eich **Llywodraethiad**; yn creu sefydliadau corfforedig â llywodraethiad cadarn wedi ei ffocysu ar y plentyn, darparu chwarae a gofal cynaliadwy ac o ansawdd ar gyfer plant, teuluoedd a chymunedau drwy eich cynorthwyo chi i adolygu eich polisïau a'ch gweithdrefnau a sicrhau bod eich cyfundrefn chi wedi ei strwythuro'n briodol ac yn gadarn.

Byddwn yn eich cefnogi chi, ein cymuned, o ran **Cynaliadwyedd**; gydag ymgysylltu dwys ac incwm i gefnogi ein tyfiant; hefyd sector cynaliadwy sydd yn fforddiadwy, sy'n cael ei brisio ac sy'n gallu cefnogi plant, teuluoedd a chymunedau i ffynnu drwy eich cefnogi i adolygu eich cynllun busnes a chwblhau Asesiad Gofal Plant Allysgol, hefyd i'ch cefnogi i wneud cais am arianu i atgyfnerthu eich cynaliadwyedd, gan gynnwys ein **cronfa grantiau newydd, cyffrous** o sefydliad




Moondance. Byddwn yn eich annog i ymgysylltu â'n dathliadau Diwrnod Chwarae (Dydd Mercher Awst 3ydd) a thrwy ein gweithgareddau Haf o Hwyl. Gwyliwch ein cyfryngau cymdeithasol a'r bwletin wythnosol am y cyhoeddiadau cyffrous.

Byddwn yn eich cefnogi chi, ein cymuned, drwy ddarparu **Hyfforddiant** er mwyn cyrraedd at weithlu cymwysedig, proffesiynol sy'n cefnogi chwarae wedi ei hunan-gyfarwyddo, i'w ddeall, ei hwyluso a'i hyrwyddo i blant a phobl ifanc drwy sicrhau cymwysterau gwaith chwarae o ansawdd a datblygiad proffesiynol parhaus, ynghyd â gweminarau i gefnogi rhwydweithio a chefnogaeth cyfoedion.

Byddwn yn eich cefnogi chi, ein cymuned, gyda'r **Iaith a'r Diwylliant Cymraeg** er mwyn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, gan alluogi plant a theuluoedd i gyrchu cyfleoedd chwarae a gofal plant yn yr iaith o'u dewis, gan warchod yr iaith ar gyfer y cenedlaethau i ddod.

Byddwn yn gwneud hyn drwy weithio gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gyflawni ein **'Cynnig Cymraeg – Welsh Offer'** a chefnogi clybiau i ymuno i wneud eu haddewid Cymraeg eu hunain.

Cynnig Cymraeg

Gyda'n partneriaid yn CWLWM, rydym wedi cytuno ar ein targedau a'n cynllun gwaith am y tair blynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar:

1. cynyddu argaeledd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig sydd o ansawdd da, yn fforddiadwy ac yn hyblyg.
2. parhau i wella ansawdd darpariaethau gofal plant a gwaith chwarae.
3. denu mwy o bobl i mewn i'r sector a chefnogi datblygiad gweithlu sgilgar ac amrywiol.
4. gwneud yn sicr bod mwy o leoliadau'n dod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.
5. parhau i wreiddio'r iaith Gymraeg mewn lleoliadau yn unol â'r Cwricwlwm newydd, Cymraeg 2050 a'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.
6. cefnogi cyflenwi Cynllun Gweithredu Cyfartaledd Hil Llywodraeth Cymru a gwreiddio ymhellach egwyddorion gwrth-hilol mewn lleoliadau ac arferion.

Byddwn yn gweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru i sicrhau bod eich cymuned o glybiau'n cael ei chefnogi i gael yr hanfodion yn gywir, gan adolygu'n rheoliaidd y polisïau ac ansawdd y gofal y maent yn ei gynnig.

Byddwn yn adeiladu ar ein **Seremoni Wobrwyo Gofal Plant Allysgol**, gan sicrhau bod sêr ein cymuned yn disgleirio ac yn cael eu cynrychioli yn yr enwebiadau y flwyddyn nesaf.

Jane O'Toole
Prif Swyddog Gweithredol

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

### Cyfleoedd i fod yn un o Ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn edrych am Ymddiriedolwyr posibl.

- I gynrychioli Clybiau yng Ngogledd a Gorllewin Cymru ac;
- •Ar gyfer or y rolau penodol o Ymddiriedolwr Marchnata a Chyfathrebu a Thrysorydd yr Elusen/Goruchwyliwr Ariannol.

Os hoffech wybod bwy am ddod yn Ymddiriedolwr i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, neu os ydych yn teimlo y gallwch gynnig i'ch Clwb Allysgol eich sgiliau a'ch amser, byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn cysylltu â Jane O'Toole (PSG) ar janeo@clybiauplantcymru.org.



# Gorllewin Cymru

## Ymddeoliad hapus a ffarwel hoff

Mae Denise Richards wedi bod yn berchennog a rheolwr Baglan Buddies am dros 18 mlynedd. Y mae wedi darparu Gofal Plant Allysgol o ansawdd i hyd at 40 o blant o alluoedd cymysg drwy gydol yr amser hwnnw, a llwyddo i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Cynigiodd y clwb y cynnig gofal plant 30-awr yn ein Clwb Ôl-ysgol sydd wedi ei leoli yn Ysgol Gynradd Baglan yn sir Castell-nedd Port Talbot, gan roi cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd, sy'n gweithio ac yn gymwys, i dalu eu ffioedd gofal plant.

Ar un ymweliad â Baglan Buddies sylwyd ar blentyn yn llefain ddim ond am nad oedd am adael ei ffrindiau yn y clwb, wedi gweld ei fam yn dod tua'r ysgol i'w gasglu. Gyda chytundeb mam, gadawyd i'r plentyn aros ychydig yn fwy tra aeth hithau i wneud ambell i neges ei hun. Mae gweithredoedd a hyblygrwydd fel hyn yn dangos y gwahaniaeth y mae Baglan Buddies wedi ei wneud yn ei gymuned. Roedd angerdd Denise dros chwarae rhydd a dewis y plant yn gwbl amlwg yn ei lleoliad drwyddo draw.

Yn anaml iawn y gofynnodd Denise am unrhyw ariannu – na'i gael ychwaith – i gefnogi ei rôl hollbwysig yn cefnogi rhieni/gofalwyr/teuluoedd y sir, ac nid yw wedi disgwyl unrhyw beth yn ôl, ond hoffem ni iddi wybod nad aeth yr hyn a roddodd i blant, i deuluoedd a chymunedau, yn ddisylw, a dymunwn y gorau oll iddi yn ei hymddeoliad cwbl haeddiannol.

Diolch am eich cyfraniadau i'r sector Denise! Byddwn yn gweld eich eisiau chi, a'ch gwaith anhygoel, yn aruthrol.

## Llongyfarchiadau i Jane o Tots 2 Teens

Rydym yn hynod falch mae enillydd gwobr Gweithiwr Chwarae 2022 oedd Jane Anderton o Tots 2 Teens, Sir Benfro, Gorllewin Cymru.

Llongyfarchiadau i Jane am ennill yr anrhydedd hon eleni, a diolch am eich cyfraniadau ardderchog i'r sector gofal plant.

Gwyliwch am gyfle i'ch lleoliad chi gymryd rhan yn rownd nesa'r enwebiadau am wobrwyon yn ddiweddarach eleni.



## Mwy o leoliadau'n gweithio tuag at statws SCE yng Ngheredigion

Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol gwirfoddol yn grymuso cymunedau i ateb eu hanghenion eu hunain a chreu cyflogaeth leol, a chyfleoedd i wirfoddoli a hyfforddi. Maent yn cefnogi 16, 443 o blant i chwarae, a'u teuluoedd i ffynnu.

Mae nifer o leoliadau newydd yng Ngheredigion wedi dechrau, neu'n ystyried, symud i statws corfforedig elusennol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi ar eich siwrnai ymgorfforri.

Yn achos clybiau a redir yn wirfoddol, mae Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE) yn fodel llywodraethiad sy'n cynnwys gwarchodaeth, gan fod ymddiriedolwyr yn cael eu diogelu rhag rhwymedigaeth ariannol y sefydliad, a chaiff ei reoli gan y Comisiwn Elusennau.

Ymysg y manteisio eraill y mae:

- cyfraddau busnes llai,
- rhyddhad treth,
- Mynediad at fwy o grantiau ac ariannu.

I'r rhai ohonoch sy'n dal yn ansicr a fyddai newid eich strwythur cyfreithiol yn addas i'ch lleoliad chi, cysylltwch â ni, a gallwn gynnal sgwrs a'ch cymryd drwy eich opsiynau.

## Cronfa Plant a Phobl Ifanc Abertawe 2022-2023

Mae Cyngor Abertawe wedi agor Cronfa Plant a Phobl Ifanc eleni, 2022-2023, i bob darparwyr gofal plant sy'n gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) sydd wedi eu lleoli yn Abertawe. Maent yn edrych am geisiadau gan sefydliadau newydd a phresennol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc, ac sy'n gallu dangos agwedd integredig tuag at ofal plant neu chwarae drwy ddarparu gwasanaethau o ansawdd, fforddiadwy a hygyrch sy'n gymorth i deuluoedd.

Mae'r gronfa'n disodli'r grantiau Covid-benodol ychwanegol a gynigiwyd y llynedd, ac eithrio'r Grant Caeadau Dros Dro, a fydd yn parhau yn 2022 / 2023. Gallwch wneud cais i'r Gronfa Plant a Phobl ifanc am y costau yr aed iddynt oherwydd Covid.

Bydd y gronfa, sydd wedi ei chyfyngu i £5,000.00 y prosiect, yn parhau'n 'fyw' drwy gydol y flwyddyn ar gyfer ceisiadau, ond nid warantir dyraniadau.

Ceir hyd i geisiadau a mwy o wybodaeth yn www.swansea.gov.uk/childrenandyoungpeoplefund. Os hoffai'ch lleoliad gefnogaeth i gwblhau cais, yna gofynnir i chi gysylltu â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, Sian Jewell, yn sianj@clybiauplantcymru.org.


### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX



# Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Yn nhymor yr haf bydd nifer o Glybiau Gofal Plant Allysgol yn meddwl am y 12 nesaf sydd i ddod, fel arfer o ganlyniad i argaeledd potiau newydd o ariannu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, ond i lawer, wrth i'r flwyddyn ysgol nesáu at ei therfyn, mae'n amser dechrau amser dechrau cynllunio ar gyfer yr un newydd ym mis Medi. Mae nifer o leoliadau yn Abertawe wedi bod yn teimlo bod pethau'n dechrau dychwelyd i sut yr oeddent cyn y pandemig, ac wedi bod yn dechrau meddwl am yr hyn y mae angen iddyn nhw ei wneud dros y flwyddyn nesaf. Mae nifer o sgyrsiau rhwng y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant a'r lleoliadau wedi canolbwyntio ar argaeledd gwahanol botiau ariannu i gefnogi cynaliadwyedd neu ehangiad. Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac a oes unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau i'w gwneud, a oes archwiliad ar fin digwydd neu sicrhau eu bod oll wedi cofrestru ar yr holl gynlluniau perthnasol megis y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth, i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio. Gellir adolygu'r rhain ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond mae tymor yr haf bob tro'n teimlo fel adeg briodol i gynllunio ymlaen llaw, yn barod am y tymor newydd. Nid yw hyn, wrth gwrs, ddim ond yn gymwys i Glybiau Allysgol yn Abertawe, ond i bob lleoliad ar hyd a lled Cymru; felly dyma rai pethau i ddechrau meddwl yn eu cylch y tymor haf hwn:



1. A ydych wedi adolygu eich sefyllfa ariannol? Yn aml caiff potiau newydd o ariannu eu rhyddhau mewn blwyddyn enwyd, felly beth am edrych ar yr hyn sydd ar gael yn eich awdurdod lleol, neu gwyliwch am ddiweddariadau ar ariannu yn ein bwletin wythnosol. Ystyriwch beth ellir ei wneud i fod yn fwy cynaliadwy – a yw'n bryd cynyddu'r ffioedd? A yw'ch taliadau allan wedi cynyddu, a beth sydd angen i chi ei wneud i ateb y costau hyn?
2. Adolygwch eich strategaeth farchnata – a oes angen ei adnewyddu neu wneud unrhyw newidiadau iddo? A ydych chi'n gwneud digon? A ydych wedi hyrwyddo'ch lleoliad i deuluoedd o blant sy'n dechrau'r ysgol ym mis Medi? Gall archebion ar gyfer mis Medi fod yn arwydd p'un a oes angen mwy o farchnata a hyrwyddo ai peidio.
3. A ydych yn gyfamserol o ran eich holl ddogfennaeth AGC? A yw'ch Datganiad o Fwriad yn dal i adlewyrchu'r hyn yr ydych yn ei gynnig ac yn bwriadu ei gynnig? A yw'r holl ffeiliau staff yn gyfamserol? A oes archwiliad ar ddod, ac os oes, a ydych yn barod ar ei gyfer?
4. A ydych heb eich cofrestru ar hyn o bryd ac yn gweithredu am lai na 2 awr ond yn awyddus iawn i ddod yn lleoliad sy'n gofrestredig ag AGC, ac ai yn ŵr yw'r adeg i ddechrau edrych ar weithio tuag at gofrestru?
5. A yw'r holl staff yn gyfamserol o ran hyfforddiant a chymwysterau? A ydynt wedi ymrestru ar gymhwyster mewn gwaith chwarae er mwyn bod yn barod am ofyniad Medi 2022?
6. A ydych chi wedi cofrestru ac yn hyrwyddo mewn ffordd weithiol y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth? Bydd y ddau'n galluogi teuluoedd sy'n gweithio i elwa o'r gefnogaeth ariannol gyda chostau gofal plant, a gallai wneud gwahaniaeth i'r nifer o deuluoedd sy'n defnyddio'ch gwasanaeth.

Dim ond ychydig syniadau yw'r rhain, a ddylent ffurfio rhan o'ch adolygiad blynyddol. Bydd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gweithio gyda lleoliadau i edrych ar y ffriodd y maent yn cynllunio ar gyfer y dyfodol a manteision 'cynllunio strategol'. Dyma gyfle i leoliadau ddechrau meddwl am freuddwydion a gweledigaethau o'r ffordd dyr hoffent i'w lleoliad edrych a pha gamau sydd angen iddynt eu cymryd i gyrraedd y fan honno; felly gwyliwch am ein hadnoddau a'n gweminarau newydd i'ch helpu i gynllunio ymlaen llaw; gallwch gwblhau ein Hasesiad Gofal Plant Allysgol Ar-lein (AGPA), a fydd yn gymorth i chi weld pa ardaloedd o'ch darpariaeth y gall fod angen eu gwella.

Am gefnogaeth gydag unrhyw ran o'r wybodaeth uchod gallwch gyrchu adnoddau yn rhad ac am ddim drwy ein hardal aelodau, neu cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant lleol.

# Cwrdd â'r Tîm!

**Enw:** Bethan Jones

**Teitl eich Swydd:** Swyddog Hyfforddi

Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs? – Ers Mawrth 2022

**Beth yw eich hoff atgof o'ch plentyndod?** Tyfu ar fferm , a thoreth o gefndryd yn byw'n agos - gormod o atgofion hwyliog i ddewis o'u plith.

**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Treulio amser gyda fy nheulu a'm ffrindiau, dringo'r bryniau, teithio.

**Beth yw eich hoff raglen deledu?** Bridgerton, a gallwch chi ddim curo'r hen Only Fools and Horses.

**Pe gallech gael un arch-bŵer, beth fyddai a pham?** Telegludo! Yn dwlu ar deithio a gweld lleoedd newydd - byddai hyn yn ei gwneud gymaint yn haws (a rhatach!).

**Pe byddech chi wedi'ch gadael ar ynys bellennig pa un eitem foethus (heblaw am ffôn symudol) a fyddech chi'n ei dewis?** Radio - byddwn i ar goll heb gerddoriaeth.

**Beth fyddai pobl yn syn o'i glywed amdanoch?** Cyrhaeddais lefel 8 mewn chwarae'r piano (er, heb chwarae ers blynyddoedd).

**Beth yw eich hoff ffilm a pham?** Willow – erioed, ers yn blentyn. A dwi hefyd yn dwlu ar Gangs of New York.

**Oes gennych chi unrhyw ffobias?** Beth ydyn nhw? Gwyfynod!

# Gogledd Cymru

## Nôl i'r Hanfodion gyda Big Ben's

Mae clwb antur Big Ben's Adventure Club, yng Ngallt Melyd, Sir Ddinbych, Gogledd Cymru, sydd wedi ei leoli ym Meithrinfa Ddydd Tiny Tots, yn enghraifft o glwb sy'n cynnig darpariaeth Frecwast, Ôl-ysgol a Gwyliau i blant 4 - 11 blwydd oed.

Ethos y clwb yw, *"Does y fath beth â thywydd gwael, dim ond dillad anaddas."*
Prif ffocws Big Ben's Adventure Club yw sicrhau bod gan yr holl blant gyfle i chwarae, cael hwyl a mwynhau ystod eang o weithgareddau a phrofiadau yn yr awyr agored, boed glaw, gwynt neu heulwen.

Mae'r gweithgareddau yn Big Bens Adventure Club yn rhai syml, ac iddynt naws 'Nôl i'r Hanfodion', gan wneud defnydd da o'r elfennau, Dŵr, Daear, Aer a Thân yn y man awyr-agored y maent yn ddigon ffodus i'w gael.

Mae'r clwb yn rhoi'r cyfle i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnig profiadau bywyd go iawn. Mae'r plant yn aml yn cymryd rhan mewn gwneud eu byrbrydau eu hunain ar y pwll tân, yn ogystal â thostio malws melys a gwneud smôrs i'w mwynhau.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a'r profiadau uniongyrchol, sy'n cynnwys tyfu eu ffrwythau a llysiau eu hunain, dysgu sgiliau goroesi a gofalu am anghenion dyddiol eu cwningod anwes, moch cwta a chywion iâr, sydd hefyd yn cael digonedd o fwythau.

Ar y tir yn ogystal y mae yurt 20 troedfedd o uchder sydd wed ei adeiladu i'r diben o fod o fudd i'r plant ei ddefnyddio er mwyn dysgu sgiliau newydd a mwynhau'r amgylchfyd chwarae cyfoethog o'i fewn. Caiff y plant yn ogystal elwa o gael cwrs rhwystrau, cae chwaraeon, tŷ coeden sydd newydd ei adnewyddu, gardd wyllt, man llithro a sglefrio anferth, man i adeiladu deniau, man celf a chrefft eang, a llawer mwy.

Yn ddiweddar enillodd Big Ben's Adventure Club y wobr am fod yn 'Hyrwyddwyr Cynhwysiant' yng Nghynhadledd a Seremoni Wobrwyo 2022 Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Cafodd y clwb hefyd ei enwebu a'i roi ar restr fer Gwobr Clwb Allysgol y Flwyddyn' ac enwebwyd, a gosod ar restr fer, ddau o staff y clwb, Ben a Kira, yn ogystal.


Da iawn Big Ben's, 'dan ni wrth ein bodda a'ch ethos a'r cyfleoedd chwarae 'dach chi'n eu rhoi i'r plant yn eich lleoliad!

Tiny Tots
BiG BENs
NEW
Adventure Club

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy
ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT









## Clwb Plant Segontiwm yn ennill tendr

Mae Clwb Plant Segontiwm yn sefydliad 'nid er elw' wedi ei leoli yn Ysgol yr Hendre, Gwynedd, Gogledd Cymru. Darparu gofal Ôl-ysgol oedd gwaith y clwb i ddechrau ond dyma weld cyfle i ehangu a thyfu eu busnes a oedd erbyn hynny wedi'i hen sefydlu, gan felly estyn mwy o gefnogaeth i'w cymuned leol.

Penderfynodd y pwyllgor y byddent yn cyflwyno cais i dendro. Er gwaetha'r ffrâm amser cyfyng iawn i gyflwyno, fe wnaethant lwyddo. Maent yn awr yn darparu gofal dydd llawn, 8.00-17.45, ac am 9 wythnos o wyliau'r ysgol.

**Sylw gan y clwb**
*"Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais tendr i ehangu o fod yn Glwb Ôl-ysgol a Gwyliau i ddod yn wasanaeth Amlapiol cyflawn. Roedd yn waith caled ag aelodau'r pwyllgor yn wirfoddol, gorfod creu a chyflwyno pentyrrau o bapurau a thystiolaeth ar gyfer y broses dendro yn ychwanegol at weithio llawn amser. Ac yna'r sialens fawr o sefydlu'r gwasanaetha amlapiol i agor wedi hanner tymor mis Chwefror - fyddai hyn fyth wedi bod yn bosibl heb waith caled ac ymdrechion ein Rheolwr, Emma, a weithiodd yn ddiddiwedd ar y sefydlu."*

Da iawn chi, dymunwn flynyddoedd lawer o lwyddiant i'r busnes!


## Beth am fynd i'r traeth...

Mae clwb hwyl Towyn Fun Club wedi ei leoli yn nhref glan môr Tywyn, Gogledd Cymru, yn cynnig Clwb Ôl-ysgol a Gwyliau i blant 3 - 11 blwydd oed. Wedi ei leoli ar dir Ysgol Maes Owen, a nepell o'r traeth, mae'r clwb yn eiddgar i gymryd mantais o'r man chwarae dros-dro yma yn rheolaidd.

Ar draeth mae digoned o ddŵr, tywod, cerrig, creigiau, arogleuon, pethau i'w gweld, golygfeydd a gwahanol wneuthuriad i bethau, sy'n galluogi plant i allu bod yn ddyfeisgar a chreadigol iawn yn eu chwarae.

Yn ôl y Damcaniaethwr Chwarae, Simon Nicholson, *''Mewn unrhyw amgylchedd, mae'r raddfa o ddyfeisgarwch a chreadigrwydd, a'r posibilrwydd o ddarganfod, yn uniongyrchol gymesur â'r nifer a'r math o amrywolion o'i fewn".*

Mae diwrnod ar y traeth yn rhoi i blant Towyn Fun Club â chyfleoedd chwarae diddiwedd, o balu yn y tywod ac adeiladu cestyll i sblashio o gwmpas yn y dŵr. Mae cymaint o rannau rhydd i'w cael ar y traeth, cymaint i'r plant eu gweld ac i wneud. Os ydych yn ddigon ffodus i fod wedi'ch lleoli'n agos at draeth, beth am drefnu trip gyda'r plant yn eich clwb a phrofi'r cyfleoedd chwarae rhad ac am ddim a di-ben-draw, a'r rhannau rhydd sydd ar gynnig.




# De Ddwyrain Cymru



## Anrhydeddau Gofal Cymdeithasol Cymru 2022

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gwobrwyo er mwyn cydnabod a dathlu gwaith nodedig ym meysydd Gwaith Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Eleni enwebwyd dau unigolyn o'r sector gwaith chwarae, ac o'r 30 enwebiad rhoddwyd y ddwy ar restr fer o'r 5 terfynol.

Mae Becci Bennet yn Rheolwr ac yn Gyfarwyddwr ar Glwb y Ddraig; yn flaenorol roedd yn aelod gwerthfawr o'n tîm yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Dechreuodd yn gyntaf gyda chlybiau yng Nghaerffili, a bellach mae wedi ymgymryd â 2 leoliad arall, yn Rhondda Cynon Taf. Yn ystod y pandemig gwnaeth Becci waith rhagorol yn cefnogi lles, ac nid lles y plant yn unig, ond hefyd lles y rheini a'r staff. Er i'r clybiau gau, cadwodd Becci mewn cysylltiad â'r holl blant; cynhaliodd digwyddiadau rhithiol fel y gallai'r plant ddal i deimlo wedi'u cysylltu â'u ffrindiau, ac anfonodd roddion atynt. Byddai'[n ffonio'r rhieni i ddal mewn cysylltiad, a gwrando ar ba mor anodd yr oeddent yn ei chael hi, yn gweithio - ac yn addysgu'u plant - o gartref, a bu mor anogol yn rhoi awgrymiadau a syniadau o bethau y gallent roi cynnig arnynt.



Yn ystod Covid, yn anffodus, caeodd lleoliad mawr yn Rhondda Cynon Taf a oedd yn gwasanaethu nifer o ysgolion yn barhaol. Cysylltodd dwy o'r ysgolion, a chanddynt deuluoedd a fu'n mynd i'r ddarpariaeth hon, â Becci, gan ofyn iddi a allai sefydlu clybiau yn eu hysgolion i gefnogi'r teuluoedd hynny. Er bod ganddi eisoes dri chlwb, swydd amser llawn fel Hyfforddwr Gwaith Chwarae, ac â hithau'n fam i ddau o blant, cydsyniodd Becci, am nad oedd am weld y rhieni heb ofal, na phlant heb gyfleoedd i chwarae.

Mae Gwen Vaughan yn rhiant yng Nghasnewydd ac mae un o'i phlant ag ASD. Gyda 2 aelod arall o bwyllgor aeth ynglŷn â sefydlu'r clwb gwyliau cyntaf yng Nghasnewydd i gefnogi plant a theuluoedd ag ASD. Mae Oak Hill ASD yn darparu gofal plant wedi ei ariannu yn ystod gwyliau'r ysgol, gan gynnig cefnogaeth un i un i'r plant er mwyn i'r rhieni gael mynediad at gyflogaeth neu seibiant. Mae Gwen wedi gweithio mor galed i sefydlu'r clwb, dod yn elusen gofrestredig a chwblhau pentyrrau o geisiadau am grantiau i sicrhau y gall teuluoedd barhau i gyrchu'r gwasanaeth hwn y mae ei daer angen. Unwaith eto, mae'n gwneud hyn yn wirfoddol, gan jyglo ei swydd a bod yn rhiant.

Cynhaliwyd y gwobrwyo ar Ebrill 21ain yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. I gefnogi'r rhai a enwebwyd, mynychwyd y gwobrwyo ar ran Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gan Becky Hall, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant De Dwyrain Cymru (a Caroline Smith, un o Ymddiriedolwyr Oak Hill, yn bresennol ar ran Gwen). Roedd yn ddiwrnod arbennig iawn. Cyflwynydd y noson ddyfarnu oedd Garry Owen, gohebydd a darlledwr Cymreig, a rhoddodd gan Julie Morgan, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, anerchiad yn diolch i bawb am y gwasanaethau rhyfeddol a âi y tu hwnt a thu draw er mwyn y rhai yn eu gofal.

Er na enillodd Becci na Gwen y dyfarniad, roeddent wedi'u gosod yn erbyn unigolion ar oedd yr un mor anhygoel, ac roedd gweld yr holl waith ardderchog sydd wedi ei wneud yn peri i rywun deimlo'n wylaidd. Roedd cael eu rhoi ar restr fer o 5 allan o 30 o bobl yn hynod o dda, a chafodd ddwy wobr â chanmoliaeth uchel.

Llongyfarchiadau i chi eich dwy, cam rhagorol, a chwbl haeddiannol.



Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm De Dwyrain Cymru drwy ffonio: 029 2074 1000, drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW



## Cyflenwi gweithdai Chwarae allan gyda'r Elfennau ym Mlaenau Gwent



Wedi llwyddo yn ein bid i Fagiau Cymorth Tesco, roedd modd i ni gyflenwi gweithdai Chwarae Allan gyda'r Elfennau i bedwar Clwb Ôl-ysgol ym Mlaenau Gwent. Dyfarnwyd y grant yma cyn Covid, ond bu'n rhaid ymatal rhag cynnal y gweithdai oherwydd cyfyngiadau. Wedi codi'r cyfyngiadau roedd mor dda gallu mynd yn ôl eto i'w cyflenwi unwaith eto i blant.

Cyflenwyd gweithdai i Tiggy's After School Club, Big stars @ Little Stars, Clwb Ôl-ysgol Deighton a Hip Hop Stars. Fe wnaeth y pant fwynhau gwneud coronau pridd, peli wwwsh a smôrs â chanhwyllau bach. Roedd yn brofiad cyffrous iawn i'r plant gael eu gadael i geisio tanio'r canhwyllau bach eu hunain â matsis, gan roi iddyn nhw'r cyfle i ddatblygu annibyniaeth, ac wrth wneud hynny ddysgu sut i ddefnyddio tân yn ddiogel.

Mae chwarae'n seiliedig ar yr elfennau'n rhan o'r cwricwlwm gwaith chwarae ac yn chwarae y mae plant yn cael eu denu ato. Mae'r elfennau'n adnodd syml a di-dâl y gallwch eu rhoi ar gael i'r plant i'w cael yn ôl i hanfodion chwarae. Os hoffech arweiniad pellach ar chwarae gyda'r elfennau, neu brynu un o'n gweithdai, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant.

TESCO Bags of Help

## Diweddariad ar Oak Hill ASD Casnewydd

I'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn dilyn datblygiad Oak Hill ASD yng Nghasnewydd, De Dwyrain Cymru, yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, byddwch yn gwybod iddi fod yn siwrnai o waith caled a phenderfyniad o ran y pwyllgor cyfan. Drwy gyfrwng myfyrdod a gwerthusiad, mae pwyllgor y clwb wedi gwneud cynlluniau clir ar gyfer dyfodol y clwb, gan ffocysu ar gyflenwi'r ddarpariaeth ofal-plant yn ystod y gwyliau'r haf yn unig, hyd nes y gallant symud ymlaen i gynnwys cyfnodau gwyliau eraill.

Yn rhan gyntaf 2022 gweithiodd y pwyllgor yn ddiflino ar sail wirfoddol, ac maent wedi llwyddo mewn nifer o geisiadau i godi arian. Dyfarnwyd arian iddynt o gronfa grantiau Pawb a'i Le, y Lotri Genedlaethol i ddarparu aelod staff i reoli a goruchwylio'r clwb. Bydd hyn yn helpu'r pwyllgor i sicrhau bod ganddynt aelod ymroddedig o'u tîm a all gysylltu â'r rhieni, cefnogi'r plant a'r bobl ifanc, gwneud yn siŵr bod gan y clwb y nifer cywir o staff, ac y gellir cyflenwi'r ddarpariaeth yn gyson drwy gydol Gwyliau'r Haf.

Llwyddodd Claire Hawkins i gael y swydd newydd hon; meddai: *"Dwi'n edrych mlaen yn wirioneddol at weithio gyda'r tîm ac at helpu'r gwasanaeth i dyfu. Rwyf wedi gweithio i dîm all-gyrraedd penodol i Awtistiaeth dros y 12 mlynedd ddiwethaf, a chyn hyn ym maes gofal plant yn Awstralia. Yn rhiant dau o blant sydd ag Awtistiaeth, rwy'n gwybod sut y gall prinder gofal plant priodol a fforddiadwy effeithio ar deuluoedd. Bydd gweledigaeth Oak Hill yn rhoi i bobl ifanc y cyfle i gyrchu chwarae a chefnogaeth, ac i rieni weithio gan wybod bod eu plant yn saff ac yn cael hwyl; mae'n gyffrous iawn i fi fod yn rhan o hyn."*



## Llongyfarchiadau Torfaen Play!

Roedd Cynhadledd Chwarae 2022 yn Eastbourne nid yn unig yn ddigwyddiad â chyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus a rhwydweithio, yr oedd hefyd yn noson o wobrwyo gwasanaethau ac unigolion sydd wedi cyfrannu'n fawr at chwarae a gwella bywydau plant. Un wobr o'r fath oedd y wobr ymateb i Covid, y Covid Response Award. Enwebwyd nifer o wasanaethau drwy'r DU gyfan, ond Torfaen Play aeth â hi. Ymatebodd Torfaen Play yn rhyfeddol i'r anawsterau a oedd yn wynebu teuluoedd yn y sir. Fe wnaethant ddarparu hybiau i blant hyglwyf a gweithwyr allweddol yn ogystal â sesiynau chwarae a seibiant pan fyddai'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny. Trosglwyddwyd pecynnau chwarae i deuluoedd ar hyd a lled y sir, a hefyd becynnau pryd-bwyd i'r rhai a gâi brydau ysgol am ddim. Gwnaeth eu cyfraniad wahaniaeth i gymaint o deuluoedd, ac roedd y wobr yma'n un haeddiannol iawn. Da iawn, bob un ohonoch chi'r Gweithwyr Chwarae, gwirfoddolwyr a rheolwyr.

# Cynhadledd Gwaith Chwarae 2022

## Cynhadledd Gwaith Chwarae 2022, yn fy nghymryd i nôl i'r hanfodion

*Adolygiad o Gynhadledd Gwaith Chwarae 2022*

Becky Hall, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant De Dwyrain Cymru



Eleni bûm yn ddigon ffodus i fynychu Cynhadledd Gwaith chwarae 2022 yn Eastbourne. Daeth y gynhadledd â Gweithwyr Chwarae ac arloeswyr yn y maes, o'r pedair gwlad, at ei gilydd. Dyma oedd y tro cyntaf i mi fod yn bresennol, a ches i mo fy siomi yn y profiad.

Dwi wedi bod yn Weithiwr Chwarae am bron ugain mlynedd; yn y gynhadledd yma clywais gan bobl a oedd yn gwneud lefelau o waith chwarae na wyddwn am eu bodolaeth, a theimlais fel newyddian pur. Siaradais â phobl sy'n rheoli meysydd chwarae antur, a rhai a oedd yna pan wnaethant ddechrau. Diffinnir meysydd chwarae antur gan ethos chwarae a ddewisir yn rhydd. Maent wedi'u creu o ddefnyddiau naturiol a rhannau rhydd, ac mae'r plant yn rhydd i ddatblygu eu man nhw a chwarae fel y dymunant. Mae cyfleoedd am risg, ac er bod gweithwyr chwarae wrth law, maent yno ddim ond i gefnogi'r chwarae pan fydd y plant yn eu gwahodd i wneud. Roedd llawer yn hoff o'r hyn y ceisiwn ei ddarparu mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol, ond ar lefel fwy organig.

Cyn fy amser yn Eastbourne roedd fy ngwybodaeth o feysydd chwarae antur yn gyfyng. Sylweddolais o'r gynhadledd mae'r rheswm am y wybodaeth gyfyngedig yma oedd am fy mod i, yn lwcus iawn, yn byw yng Nghymru, yr unig wlad gartref i fod â pholisi chwarae. Mae gennym gymwysterau gwaith chwarae wedi eu hachredu, ac er bod mwy o waith eto i'w wneud, fel gwlad gwawn chwarae'n iawn.

Mae meysydd chwarae antur yn angenrheidiol yn y gwledydd lle nad yw chwarae'n un o flaenoriaethau San Steffan, ac yn enwedig mewn ardaloedd trefol, llawn adeiladau, megis Llundain. Gwnes hyd yn oed gwrdd â dynes a deithiodd i Affrica a sefydlu yno feysydd chwarae yn un o'r pentrefi tlotaf. Roedd yr hanesion a glywais gan yr holl bobl hyn am brofiadau'r plant yn codi calon; hanesion y plant yn gallu chwarae allan eu teimladau mwyaf brawychus, plant a oedd yn teimlo nad oedden nhw'n rhan o unrhyw ran o'u byd, ond a oedd yn teimlo'n rhydd i ddod i wybod pwy oeddent drwy fod yn y meysydd chwarae hyn.

Yn ogystal â rhai'n rhoi sgyrsiau, roedd hefyd gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai ymarferol, a gwnaeth un yn arbennig argraff arna i. Teitl y gweithdy oedd "Play with Adult Tools". Dewisais ymuno gan feddwl y byddwn yn dysgu ffyrdd newydd o gyflwyno plant i offer oedolion, a, gobeithiais, ffyrdd newyddo annog y lleoliadau dwi'n eu cefnogi i beidio â bod ofn eu cynnwys. Wel, nid felly o gwbl yr oedd hi! Yr hwyluswyr oedd dau ddyn sy'n adeiladwyr, ac wedi treulio'u gyrfaoedd yn gweithio mewn meysydd chwarae antur ac yn helpu'r plant i greu eu hadeiladweithiau eu hunain. Wedi rhoi sgwrs fer iawn am eu profiad, dyma oedd eu cyfarwyddiadau: "Dyna i chi bren draw yn y fan yna, a thwls ar y ford yna, adeiladwch rywbeth." Aeth arswyd drwydda i'n syth. Dynion oedd y mwyafrif o'r bobl yn yr ystafell, dynion a oedd yn gwybod sut i adeiladu pethau a beth i'w wneud â 'compact driver'. Do'n i erioed wedi defnyddio driliau, ac yn sicr ddim erioed wedi creu adeiladwaith. Meddyliais y byddwn, petai'n rhaid i mi, wneud y gorau a allwn, a dwi yn lwcus i fod â thad a oedd bob tro'n gosod yn eu lle unrhyw silffoedd i mi, ac yna gwenes briodi adeiladwr. Dwi'n gwybod pa gryfderau sydd gen i - a dyw adeiladu ddim yn eu plith!

Yn fy ennyd o fraw, dyma feddwl am ffyrdd y gallwn sleifio allan ac ymuno â gweithdy arall, ond penderfyniad y gallai hwn fod yn gyfle da i ddysgu rhywbeth. Gan gymryd fy hun yn gyfan gwbl allan o'm cylch cysur es at grŵp a gofyn a allwn ymuno â nhw. Ro'n i'n onest ynghylch nad oedd gen i syniad o'r hyn ro'n i'n ei wneud, a gwnaeth bob un ohonyn nhw ddangos i mi sut i'w wneud, a'm hannog i drio. Fe wnes fwynhau'n fawr gwneud ein hadeiladwaith. Fe ddysgais y gwahaniaeth rhwng dril ac 'impact driver' a sut i greu adeiladwaith cadarn. Ar y diwedd teimlais fy mod wedi cyflawni gymaint, nid yn unig am fyd mod wedi dysgu sgil newydd, ond am i mi aros. Gwnes rywbeth a oedd yn peri braw i mi, ac fe ddes i drwyddo. Gwnaeth hyn i mi feddwl yn ôl ar sut yr ydym, hyd yn oed fel oedolion, yn dal i gymryd risgiau; mae'n bosib na fyddem ni'n dringo i ben ucha' coeden, ond rhoddwn ein hunain mewn sefyllfaoedd lle nad ydym yn teimlo'n hyderus. Des i'r casgliad mai'r rheswm y gallwn wneud hynny yw am i ni gael y profiadau hynny fel plant drwy ein chwarae. Profais yr hyn y mae'r plant yn ein clybiau'n ei brofi pan fyddan nhw'n cymryd risgiau, yr adrenalin, y gwneud a'r synnwyr o fod wedi cyflawni o'i wneud. Mewn digwyddiad yn ddiweddar ar gymryd risgiau defnyddiais yr hanes yma gyda dysgwyr. Roeddwn yn teimlo ei fod yn dangos y glir bwysigrwydd caniatáu i'r plant gymryd risgiau, boed hynny'n un gorfforol neu'n un emosiynol. Ystyriwch y manteision datblygu!

Treuliais amser hir yn meddwl yn ôl am fy mhrofiad yn Eastbourne, a'r un peth mawr a gymerais yno, yr hoffwn ei rannu â phob Gweithiwr Chwarae, yw pwysigrwydd myfyrio. Gallwn wneud y gwaith yma am nifer o flynyddoedd, a'i wneud yn dda, ond mae cymaint mwy i'w ddysgu bob tro. Cymerwch gam yn ôl o'r hyn a wnewch. Ewch yn ôl i'r hanfodion, cofiwch pam ein bod yn gwneud y gwaith yma. Rhowch eich hunain mewn sefyllfaoedd sy'n eich atgoffa o'r rheswm pam ei bod mor bwysig i adael i blant gymryd risgiau. Dysgwch gan eraill i wella'r hyn sydd gennych i'w gynnig, a bydd gweld y plant yn chwarae yn y ffordd y maent wedi'u gyrru gan ysfa gynhenid yn dangos i chi gymaint o werth sydd yn hyn.



# Diwrnod Chwarae 2022



Y Diwrnod Chwarae yw diwrnod Cenedlaethol Chwarae. Dyma'r digwyddiad mwyaf sy'n dathlu chwarae yn y DU, o bosibl y mwyaf yn Ewrop, ac yn draddodiadol fe'i cynhelir ar y Dydd Mercher cyntaf ym mis Awst. Mae'r Diwrnod Chwarae'n ddathliad o hawl plant i chwarae, ac mae'n ymgyrch sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd chwarae ym mywydau plant. Mae llesiant meddyliol plant a'r sector Gofal Plant Allysgol wedi cael ergyd arbennig o galed gan Covid-19, felly mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen i sefyll ar ein traed a dathlu chwarae a'r effaith ryfeddol a gaiff ar fywydau plant, eu hiechyd meddyliol, llesiant, iechyd corfforol, cyfeillgarwch a llawer, llawer mwy.

Thema Diwrnod Chwarae eleni yw "Popeth i chwarae amdano – ychwanegu at gyfleodd chwarae pob plentyn.".

Beth am wneud addewid heddiw a dechrau cynllunio sut y byddwch yn dathlu prydferthwch chwarae gyda'r plant yn eich lleoliad a'ch cymuned eleni? Mae'r Diwrnod Chwarae ynglŷn ag annog teuluoedd a chymunedau i gymryd rhan mewn chwarae a'i fwynhau. Pa ffyrdd creadigol a ddowch chi ar eu traws i ddathlu'r Diwrnod Chwarae yn eich cymuned? Beth fyddwch yn ei wneud i gael plant i gymryd rhan, y rhieni a'r mamguod a thadcuod / neiniau a theidiau - a'r gymuned - i gymryd rhan? Ac nid yn unig ar y Diwrnod Chwarae y mae chwarae'n bwysig - sut allwch chi addo i ddal i gefnogi hawl plant i chwarae gydol y flwyddyn? Beth am wneud eich addewid yn gyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol?

Yma yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gallwn eich helpu i fynd allan i gefnogi chwarae plant yn eich cymuned ac o'i chwmpas. Gwyliwch am syniadau ac adnoddau sy'n helpu plant i gael y Diwrnod Chwarae y maen nhw'n ei haeddu. Beth am gynnal eich digwyddiad Diwrnod Chwarae eich hun yn eich clwb er mwyn hyrwyddo chwarae a hefyd y gwasanaeth ardderchog yr ydych yn ei gynnig i blant yn eich cymuned leol? Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant rhanbarthol am fwy o gefnogaeth (neu e-bostiwch info@clybiauplantcymru.org).

Felly chi sydd i ddweud - sut fyddwch chi'n cefnogi plant Awst y 3yss yma? Beth am beri i'r cyfryngau cymdeithasol orlifo â newyddion am blant yn chwarae ar Ddiwrnod Chwarae, Awst 3ydd eleni.

**2022 – blwyddyn chwarae, gweithio a bod gydau'n gilydd.**

# Sylfeini Pwyllgorau yn lansio ein Fideos 'Sut i'

Gwyddom fod Rheolwyr a Gweithwyr Chwarae mewn clybiau yn brysur, ac yn gynharach yr haf hwn fe wnaethom lansio ein cyfres fesul-cam o fideoes gwybodaeth fesul-cam i gefnogi clybiau prysur.

Yn gymorth i ddiolch i wirfoddolwyr, eu dathlu a'u cefnogi yn ystod wythnosau cenedlaethol Gwirfoddolwyr ac Elusennau Bach ym mis Mehefin, fe wnaethom lansio'r gyfres gyda 'Sut i ... Ddeall Cyfrifoldebau Pwyllgorau mewn Clybiau' mewn dau funud, a'i ddilyn gan nifer o fideos 'Sut i' yn ymdrin â sut i ***ddiogelu, recriwtio a sefydlu aelodau pwyllgor***. Mae'r fideos yn dal i'w gweld ar ein llwyfannau cyfrwng-cymdeithasol.

Mae'r fideos yn ategu at yr adnoddau eraill yr ydym yn eu datblygu'n rheolaidd i glybiau, yn cynnwys e-fwletinau wythnosol, polisïau, gweithdrefnau a ffurflenni templed, arweiniad, podlediadau a'n cyfres 10 Ffordd – adnoddau wedi'u hysgrifennu'n glir a chryno i fod yn ganllaw i glybiau ar bynciau megis llais y plentyn, achub y blanet, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac amrywedd diwylliannol.

Rhowch wybod i ni os oes unrhyw beth arall, ar unrhyw bwnc, yr hoffech i ni ymdrin â nhw, yn y gyfres 'Sut i', fel y gallwn fod o gymorth i chi.



# Gweminarau'n Rhad ac am Ddim – Marchnata Hwylus

Ymunwch â ni i fynd 'yn ôl i'r hanfodion' ac edrych ar gamau cyntaf adeiladu eich presenoldeb ar-lein gyda'n gilydd. Byddwn yn cynnal cyfres ddwyran ar Zoom; argymhelir bod yn bresennol yn y ddwy, ond mae hyn yn ddewisol. Bydd y weminar gyntaf yn edrych ar bwysigrwydd marchnata ar-lein drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr ail weminar yn cyflwyno ambell i erfyn marchnata defnyddiol, yn ddi-dâl (a chyfleoedd dewisol i farchnata, â thâl) sy'n gymorth i greu, trefnu a rhannu cynnwys. Bydd tyfu'ch presenoldeb ar-lein yn help i sicrhau cynaliadwyedd eich busnes. Ewch i'r tudalen hyfforddi/digwyddiadau ar ein gwefan i archebu'ch lle!

**Gweminar 1:**
**Gorffennaf 6ed 2022, 6:30 - 8:30yh**

**Gweminar 2:**
**Gorffennaf 20fed 2022, 6:30 – 8:30yh**

# Tyfu'ch Gwledd eich Hun: Nôl i'r Hanfodion

Ffordd ardderchog o fynd yn ôl i'r hanfodion a byw'n gynaliadwy yw drwy dyfu a fforio'ch bwyd eich hun. Mae'r haf yn dymor da iawn i ddechrau gwneud hyn a mwynhau gwledd cartref/a fforiwyd yn yr awyr agored o gwmpas y tân gwersyll i roi hwb i'ch hwyl a'ch lles cyffredinol. Ac os nad ydych wedi dechrau mynd ati i dyfu eto, mae digonedd o lysiau y gallwch eu hau hyd yn oed ym mis Gorffennaf (yn cynnwys rhai mannau-bychain), ac wrth gwrs mae yna ddigon o gyfleoedd i fforio.

Gobeithio bod yr hadau basil a blodau haul y gwnaethom eu postio allan i'r holl glybiau ym mis Mai yn tyfu'n dda. Mae tipyn go lew o gynghorion a syniadau am goginio gyda'r rhain yn ein **pecyn adnodd 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun'**, megis Cracers Ceirch a Hadau, Menyn sinamon a Hadau Fanila, Rholiau Pitsa Tân Gwersyll a Bara Perlys. Cafodd y pecyn yma ei ddiweddaru ym mis Mawrth 2022; y mae bellach yn cynnwys gweithgareddau ychwanegol ac yn rhad ac i'w gael yn rhad ac am ddim ar ardal aelodau ei gwefan. Y mae'n dwyn at ei gilydd weithgareddau hwyliog ac ymarferol i helpu plant mewn clybiau gofal plant i dyfu'n gynaliadwy, i gynaeafu (pa mor fawr/fach bynnag y bo'ch man awyr-agored), fforio a choginio eu gwledd ddathliadol eu hunain.

A wyddech chi fod yn dal gennych amser i hau betys, letys, berwr, rhuddygl a shibwns ym mis Gorffennaf. Mae'n gyfle gwych i roi cynnig ar y gweithgaredd pêl hadau.

Y mae hefyd adran ardderchog ar 'goginio yn yr awyr agored' sydd â ryseitiau y gallwch fwynhau gydag eraill ar dân agored. Rhowch gynnig ar ei rysáit popcorn tân gwersyll am drît arbennig.

Mae nosweithiau hir a golau'r haf yn rhoi llawer mwy o amser i chwarae ac antur. I drin yr hen lympiau a chleisiau a gasglwyd ar hyn y ffordd, beth am wneud ein balm cleisiau llygad-y-dydd

**Mae cymaint mwy o weithgareddau hwyliog i'w gweld yn y pecyn adnodd, 'Tyfu'ch Gwledd eich Hun' a byddai'n dda iawn gennym petaech yn rhannu ac yn ein tagio mewn unrhyw ffotograffau o'ch clwb yn tyfu, fforio, coginio ac yn cymdeithasu ymysg eich gilydd drwy ddefnyddio @Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, #bagsofhelp, #growyourownfeast ar draws eich llwyfannau cyfryngcymdeithasol!**


## Tyfu'ch Gwledd eich Hun
Garddio Cynaliadwy

### Salad Peli Had

Gallech ddefnyddio cymysgedd o hadau llysiau salad (e.e. letys, radis, shibwns) gan wneud yn siŵr fod ganddynt le i dyfu. Mae blodau gwyllt hefyd yn ddewis da oherwydd ym myd natur maent yn hunan-blanedig, a'u heginblanhigion yn wydn heb angen fawr o ofal. Bydd y blodau'n denu gwenyn ac yn gwneud arddangosiadau ardderchog i'ch gwledd.

**Bydd arnoch angen:**

- Clai (ar gael o siopau crefft)
- Compost neu bridd potio
- Hadau (amrywiadau hawdd-eu-tyfu neu gynhenid)


**Beth i'w wneud:**

1. Rhannwch eich deunydd fel bod gennych:
   - 5 rhan yn glai
   - 1 rhan yn bridd compost/potio
   - 1 rhan yn hadau
2. Cymysgwch y clai a'r compost. Ychwanegwch ychydig ddŵr os yw'ch cymysgedd yn sych. Dylai'r cymysgedd fod yn eithaf gwlyb heb fod yn ddiferol; fel toes bisgedi.
3. Ychwanegwch yr hadau at y clai a'r compost. Cymysgwch y rhain â'ch dwylo.
4. Siapiwch y cymysgedd yn beli tua maint pêl golff.
5. Gallwch blannu'r peli had pan fyddant yn dal ychydig yn wlyb, neu adael iddyn nhw sychu yn yr aer.
6. Dowch o hyd i ardaloedd yn eich gardd. Taflwch eich peli had neu gosodwch nhw ar bridd moel. Cyhyd â'u bod yn cael eu dyfrio (â llaw neu â glaw) bydd y clai'n pydru a'r hadau'n tyfu.

**Ffaith Hwyliog**

Roedd letys yn arfer cael ei weini i frenhinoedd ac aelodau'r teulu brenhinol yn hen Roeg a Rhufain.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
T: 029 2074 1000 F: 029 2074 1047 E: info@clybiauplantcymru.org
Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen cofrestredig 1093260


### Popcorn Tân Gwersyll

**Bydd arnoch angen:**


- Ffoil tun
- Cnewyll popcorn
- Olew/menyn
- Sesnin (rhowch gynnig ar marmite a menyn, perlysiau a menyn, garlleg a pharmesan neu sinamon, menyn a mêl)

**Beth i'w wneud:**

1. Rhwygwch ddarn 45cm sgwâr o ffoil.
2. Yng nghanol pob sgwâr, ychwanegwch un llond llwy de o olew ac un llond llwy fwrdd o bopcorn.
3. Dowch â'r corneli gyda'i gilydd a'u clymu â chortyn. Gosodwch hwn ar lo poeth a'i ysgwyd â ffon hir nes y bydd y popcorn wedi popio.
4. Ychwanegwch sesnin.

**Pa gynhwysion diddorol a allech eu defnyddio fel sesnin i'ch popcorn?**





## Tyfu'ch Gwledd eich Hun
Fforio

### Balm Cleisiau Llygad-y-dydd

Rydym ni'n fwy tebygol o gael ein cleisio yn ystod misoedd yr haf pan fyddwn yn treulio mwy o amser y tu allan - a dyma pan fydd digonedd o Lygaid-y-dydd o gwmpas.

**Bydd angen arnoch:**

- Jar 200 ml
- llygaid-y-dydd agored
- olew blodau'r haul neu lysiau
- cŵyr gwenyn neu olew cnau-coco solet

**Beth i'w wneud:**

1. Ar ddiwrnod heulog, llenwch jar 200 ml yn llawn o lygaid-y-dydd sych, agored, gan eu gwasgu i lawr ychydig.
2. Arllwyswch olew blodau'r haul neu lysiau dros y llygaid-y-dydd, rhowch y clawr ar y jar a'i gadael ar sil ffenest heulog am un wythnos yn union.
3. Straeniwch y llygaid-y-dydd gan ddefnyddio gogr mân metel, gan gadw'r olew. Gall y llygaid-y-dydd fynd i mewn i'r compost.
4. Yn dyner, toddwch yr un swm naill ai cŵyr gwenyn neu olew cnau-coco colet gyda'r olew (nid oes raid i'r mesur hwn fod yn berffaith)
5. Arllwyswch yr hylif i mewn i jariau bychain, oerwch y rhain a marcio'r cynnwys yn glir. Cadwch nhw yn yr oergell, yn barod i'w defnyddio.
6. I'w ddefnyddio, does ond angen rhwbio ychydig o'r balm ar unrhyw gleisiau a gewch.

**Cyngor Iechyd a Diogelwch**

- Gwiriwch yr ardal yr ydych yn fforio ynddi am unrhyw bethau miniog neu beryglus.
- Cofiwch wirio'r llygaid-y-dydd am unrhyw drychfilod bychain.
- Er bod pob elfen o'r balm yn fwytadwy, nid yw wedi'i ei fwriadu i gael ei fwyta, yn enwedig os oes risg bychan iawn o gael botwliaeth os gadewir y llygaid-y-dydd am 10 niwrnod neu fwy cyn eu straenio.

**Ffeithiau Hwyliog**

Mae'r enw Cymraeg, Llygad-y-dydd, ar y blodyn oherwydd ei fod yn dechrau cau pan fydd hi'n nosi neu'n oeri.

Un enw Saesneg ar y blodyn hwn yw 'Bruisewort', am yr arferid ei ddefnyddio i leddfu cleisiau.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd CF14 5UW
T: 029 2074 1000 F: 029 2074 1047 E: info@clybiauplantcymru.org
Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen cofrestredig 1093260

# Cymraeg

## Tipyn bach o Gymraeg

Gall Cymru olygu cymaint o wahanol bethau i ni oll - boed yn gerddoriaeth, teulu, cawl, pice-ar-y-maen neu hyd yn oed daffodils. Ond yr hyn sy'n rhoi i nifer ohonom y synnwyr o berthyn yw bod gennym ein hiaith ein hunain. Mae dwy iaith swyddogol yng Nghymru, y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru i weld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Mae hwn yn sicr yn uchelgais heriol, ond yn un y mae'n werth ymateb iddo, ac sy'n angenrheidiol i sicrhau iaith fyw.

Mae Clybiau Gofal Plant Allysgol yn rhoi i blant gyfleoedd i chwarae, gyda'r ddealltwriaeth fod chwarae'n cael ei gymell yn gynhenid a'i gyfarwyddo'n rhydd gan y plant; mae gwreiddio'r iaith Gymraeg, hyd yn oed ar lefel dealltwriaeth sylfaenol / achlysurol mewn chwarae yn rhoi i blant y gallu nid yn unig i gyrchu'r chwarae yn eu hiaith ddewisol ond hefyd 'ddal' yr iaith mewn ffordd hwyliog.

Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rôl mae'r sector gofal plant a gwaith chwarae yn cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, i gynorthwyo mewn ffordd weithiol i warchod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg i'r cenedlaethau i ddod. Ein rôl ni fel cenedl yw bod yn rhan o'r siwrnai hon.

Dyma rai o awgrymiadau ardderchog Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ynghylch rhoi tipyn bach o Gymraeg ar waith yn eich lleoliad.

- Gwnewch yn siŵr fod y Gymraeg yn cael ei chlywed drwy fod â'r radio ymlaen yn y cefndir a gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg.
- Ceisiwch gyfarch y plant a'r rheini'n ddwyieithog lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a cheisiwch annog siaradwyr Cymraeg i siarad Cymraeg neu ddechrau sgyrsiau gyda nhw, a defnyddio cymaint ag y bydden nhw'n ei wybod.
- Gwnewch yn siŵr fod yr iaith Gymraeg yn cael ei gweld drwy fod ag arwyddion ac arddangosiadau dwyieithog lle bynnag y bo'n bosibl.

Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs bosteri lliwgar y gallwch eu harddangos yn eich lleoliad; maen nhw'n cynnwys y Tymhorau a'r Tywydd, Ffrwyth a Llysiau, yr Wyddor Gymraeg a'n posteri diweddaraf.

Mae Twinkl hefyd yn wefan wych sy'n llawn o adnoddau dwyieithog a Chymraeg y gellir eu hargraffu.

- Recriwtio – Cofiwch eich bod yn hysbysebu y byddai sgiliau'r unigolyn yn yr iaith Gymraeg yn rhai a ddymunir. Wrth recriwtio am siaradwyr Cymraeg bydd angen ichi ystyried pa lefel o Gymraeg y bydd arnynt ei hangen. A allant siarad ychydig o Gymraeg, a ydynt yn rhugl neu'n barod i ddysgu?
- Gallech gyflwyno Cymro'r dydd neu'r wythnos. Rhoi gwobr i'r plentyn a ddefnyddiodd y mwyaf o Gymraeg mewn wythnos, a rhoi iddyn nhw'r cyfrifoldeb o fonitro'r Gymraeg a ddefnyddir gan eraill.
- Cyflwynwch air neu ymadrodd Cymraeg y dydd/wythnos.
- Gallai'r geiriau fod ynghylch dathliad, y tymhorau, chwaraeon, ffitrwydd, bwyd, natur neu'r tywydd. Yna gallech gynllunio'r holl weithgareddau Cymraeg o gwmpas y thema honno. Edrychwch ar ddefnyddio gwahanol eiriau ac ymadroddion o fewn y thema honno a'u rhoi ar waith yn chwarae'r plant.
- Cyflwynwch gornel Gymraeg yn cynnwys pob math o bethau Cymraeg: llyfrau, gemau, aps iPad, cerddoriaeth a gweithgareddau Cymraeg.
- Hyrwyddwr y Gymraeg – Gallech ofyn i aelod o'r staff fod yn arweinydd eich lleoliad ar yr iaith Gymraeg. Gall y rôl gynnwys cynllunio gweithgareddau, dod o hyd i ddeunydd Cymraeg neu ddwyieithog a threfnu cyrsiau hyfforddi i'r staff.
- Cyflwynwch fasgot ar ffurf pyped neu dedi sy'n byw yng 'nghornel Gymraeg' eich lleoliad. Gallai'r pyped yma fod yn un sy'n siarad Cymraeg, un sy'n ddim ond yn deall Cymraeg, neu gellir ei ddefnyddio fel atgoffiad cyson i siarad Cymraeg neu fod y lle yn un diogel i'r plant fynd i ymarfer eu sgiliau Cymraeg.
- Cyflwynwch yr iaith Gymraeg i'ch trefn arferol ychydig ar y tro.

Lluniwch restr o eiriau arferol dwyieithog a ddefnyddiwch yn ddyddiol, a'i harddangos yn eich lleoliad. Yn ystod amser snac er enghraifft ' 'amser golchi eich dwylo / time to wash your hands', 'amser snac / snack time' 'dŵr neu laeth / water or milk'?

Un gair/ymadrodd – ac un drefn – ar y tro.

- Ystyriwch ymrestru'ch hun, neu'ch staff, ar CAMAU, sydd yn gwrs iaith-Gymraeg, ar-lein, hunan-astudio, wedi ei greu'n benodol ar gyfer ymarferwyr gofal plant.

**Start today! – a little bit at a time :)**

**Dechreuwch heddiw! - tipyn bach ar y tro :)**

## Posteri ac adnoddau Cymraeg


A oes angen help ar eich lleoliad i gyflwyno Cymraeg sylfaenol i'ch gweithgareddau dyddiol?

Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ddewis eang o adnoddau, gweithgareddau, posteri a dulliau i'ch helpu i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliad.

Mae ein h adnodd 'Cymraeg Achlysurol' yn fan cychwyn 'parod' i'ch Clwb Allysgol; mae'n cynnwys syniadau ac adnoddau i gyflwyno Cymraeg Achlysurol i'ch lleoliad, a fydd hefyd yn eich cefnogi i ddechrau gweithio tuag at y Cynnig Gweithiol.

Os hoffech fwy o wybodaeth, neu set o bosteri, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant neu ein Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg. sianej@clybiauplantcymru.org










# Sylfeini Llywodraethiad

Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw nifer o Glybiau Gofal Plant Allysgol at bwysigrwydd llywodraethiad cadarn, â'r ffocws ar y plant, un sy'n darparu chwarae cynaliadwy ac o ansawdd i blant, teuluoedd a chymunedau.

I gefnogi llywodraethiad eich Clwb Allysgol, mae gennym ddewis eang o **hyfforddiant ac adnoddau busnes a phwyllgor** y gallwn eu darparu'n barhaus, ynghyd â **set gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau templed** i'ch helpu i fabwysiadu dulliau systematic yn eich busnes er mwyn bodloni'r rheoliadau a'r arweiniad, yn ogystal â rhoi plant wrth galon yr hyn a wnewch.

Darperir Clybiau Allysgol yng Nghymru gan amrywiaeth eang o strwythurau rheoli preifat, gwirfoddol ac ysgol a'u hamrywiol ffurfiau cyfreithiol. Gallwn hefyd gefnogi eich clwb i **adolygu'ch strwythur ac edrych ar wahanol ffyrdd o gryfhau eich llywodraethiad**. Er enghraifft, mae nifer o glybiau a reolir yn wirfoddol yn manteisio ar y gefnogaeth sydd gennym ar gael i ddod yn **Sefydliadau Corfforedig Elusennol**. Mae'r model yma'n cynnig mwy o warchodaeth gan y caiff ymddiriedolwyr eu diogelu'n bersonol rhag rwymedigaethau ariannol y sefydliad, a bydd ganddynt fynediad at fwy o grantiau ac ariannu.

Mae eich Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant wedi cynorthwyo **11** o leoliadau i ddod yn SCEau dros y flwyddyn ddiwethaf, a gallant eich helpu bob cam o'r ffordd.

*"[Roeddem] yn poeni gan feddwl y byddai [dod yn SCE] yn llawer mwy cymhleth on fe wnaethoch chi'r broses gymaint yn haws."* **Clwb Allysgol The Hollies, Rhondda Cynon Taf**

*"Bu'r Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant o fudd mawr i Little Disciples wrth fynd drwy ein cynllun busnes a llywodraethiad."* **Clwb Allysgol Little Disciples, Sir y Fflint**

*"Mae'r cyngor yr ydym wedi ei gael wedi bod o safon uchel. Unigolyn hynod o wybodus â phrofiad sylweddol."* **Ysgol Gynradd Arberth, Sir Benfro**

**Mae ein erfyn Asesu Gofal Plant Allysgol (AGPA)** bob tro'n lle da i fynd yn ôl i'r sylfeini, gan roi cyfle i leoliadau sydd wedi eu rheoli'n breifat, yn wirfoddol a chan ysgolion, i adolygu mewn ffordd gyfannol ar y gwasanaeth gofal polant a ddarperir a pharhau i wella. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae 52 o glybiau wedi defnyddio'r AGPA syml, dull rhestr wirio, sy'n cynnwys cwestiynau sector-benodol ar draws gwahanol agweddau, megis rhai cyfreithiol, ariannol, hyfforddiant ac ansawdd, y ddarpariaeth chwarae a'r marchnata, i gyfrannu at gynllun gweithredu er mwyn nodi'r newidiadau a all wella ansawdd a chynaliadwyedd gofal plant.



# Hyfforddiant

## Gadewch i ni fynd nôl i'r hanfodion

Er i'r ddwy flynedd ddiwethaf fod yn amserau pryderus i nifer, a chyfyngiadau cyfnod-clo a gweld eisiau aelodau teulu, yr oedd mewn gwirionedd rywbeth am yr adeg honno hefyd a'n gwnaeth yn fwy gwylaidd. Roedd yn amser lle wnaethom oll ddod i stop, a dechrau gwerthfawrogi ein hawr y dydd o "ymarfer corff" yn yr awyr agored. Fe wnaethom dreulio'r haf yn chwarae yn ein gerddi cefn, yn cyflwyno gemau yr oeddem yn eu cofio'u chwarae pan oeddem yn blant. Y mae'r holl gyfleoedd ardderchog yma i chwarae a oedd yn digwydd wedi dod i ben eto o ganlyniad i fywyd yn normaleiddio eto. Mae bywyd teuluoedd wedi dod yn fwyfwy prysur eto. Mae plant wedi stopio chwarae allan yn yr ardd, ac unwaith eto, mae gwneud pethau y tu allan i'r cwricwlwm a theithiau cerdded teuluoedd yn bethau prin, a'r opsiwn yn hytrach yn ddyddiau mewn darpariaethau chwarae masnachol.

Gadewch i ni fynd nôl i'r hanfodion yr haf yma ac annog plant i chwarae allan eto; gadewch i ni ddod allan â'r sialc ar rannau rhydd. Gadewch i ni fynd allan i'r awyr iach i brofi anturiaethau sylfaenol o gwmpas ein cartref; gadewch i ni arafu eto a dod yn ôl i'r hanfodion.

## The String of Beads gan Penny Wilson

*Adolygiad gan Becky Hall, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, De Dwyrain Cymru a Swyddog Hyfforddi*

Tra'r oeddwn yng Nghynhadledd Gwaith Chwarae 2022 cefais fy nghyflwyno i ddynes o'r enw Penny Wilson. Mae Penny'n berson blaenllaw ym myd gwaith chwarae, a chanddi ddegawdau o brofiad mewn Meysydd Chwarae Antur. Dros y blynyddoedd mae wedi ysgrifennu toreth o bapurau a llyfrau, a gwnaeth un ohonynt, The String of Beads, daro tant yn bendant. Mae'r llyfr yn gasgliad o luniau a gymerodd o blant, o bedwar ban byd, yn chwarae. I gyd-fynd â'r lluniau y mae storïau a glywodd yn ystod ei blynyddoedd yn y maes. Mae'r storïau yma ynglŷn ag atgofion chwarae, ac maent yn ymestyn ar draws cenedlaethau a gwledydd ar draws y byd.



Roedd y storïau'n sôn am risg a chwarae yn y tywyllwch. Roeddent yn storïau a oedd yn cynhesu'r galon, rhai gan wŷr hŷn mewn pentrefi, ac yn arbennig un stori gan ddynes a chafodd ei magu ym Malaysia lle bu'n chwarae ar y traeth gyda'r tywod a'r môr. Mae'n cymharu ei hatgofion hi â hynny o eiddo ei phlant, sef parciau, ac er ei bod yn mwynhau gweld ei phlentyn yn chwarae gyda phlant eraill yma, mae'n sylwi bod y chwarae'n ymddangos yn anniddorol iddi; hynny am na ellir newid cyfarpar y parc, ac am mai dim ond un pwrpas sydd iddo. Mae hyn yn cefnogi damcaniaeth hyblygrwydd cyfansawdd, ac mae'r ddynes yma'n cydnabod hyn ddim ond drwy ei gymharu â'i phlentyndod ei hun.

Yr hyn a oedd yn ddiddorol am yr holl storïau hyn oedd y tebygrwydd rhwng yr atgofion chwarae. Fe amlygodd hyn y ffaith bod pob plentyn yn cael ei ddenu at yr un mathau o chwarae er gwaetha'r gwahaniaethau mewn diwylliant, amgylchedd a chenhedlaeth. Y mae bob tro angen ceisio risg. Sawl ysfa i balu, boed hynny mewn tywod, mwd neu safleoedd adeiladu, a'r angen am chwarae gyda'r elfennau.

Wedi'r sgwrs a fynychais, cyhoeddodd Penny'r penderfyniad i wneud ei holl gyhoeddiadau'n ddi-dâl i'w cyrchu i bawb. Roedd yn bwysig iddi hi fod gan bawb fynediad at ddeunydd ar bwysigrwydd gwaith chwarae organig. Gallwch gyrchu'r cyfan o'i gwaith drwy fynd i http://theinternationale.com/pennywilson/. Chewch chi mo'ch siomi!

## Golwg newydd ar Chwarae Cysefin

Disgrifir Chwarae Cysefin fel hyn:
*"Chwarae sy'n galluogi plant i archwilio hynafiaid, hanes, defodau, storïau, tân a thywyllwch. Y mae'n galluogi plant i gyrchu chwarae o gyfnod cynharach o ran esblygiad dynol."*
(Bob Hughes yn Taxonomy of Play Types)

Mae'r math hwn o chwarae'n galluogi plant i arddangos agweddau o hanes esblygiad dynol sydd wedi eu trosglwyddo drwy'r cenedlaethau, ac a all godi'u pennau pan fydd plant yn chwarae'n fympwyol.

Mae chwarae cysefin yn galluogi plant i fyfyrio ar bethau drwy'r oesau y byddir wedi eu gwneud yn rhan o'u dysgu i ddod yn oedolyn yn y gymdeithas.

Mae hyn i raddau'n esbonio pam fod adeiladu deniau bob tro mor boblogaidd ymysg plant, a pham fod plant mewn ffordd fympwyol yn troi ffyn yn arfau megis cleddyfau a gwaywffyn!

Rhai enghreifftiau i chi roi cynnig arnynt
- Gwneud tân gwersyll
- Chwarae cestyll
- Gwneud bwâu a saethau o ffyn a chyrs
- Cerflun o bren
- Rhannu rhigymau, posau a storïau – gemau sibrwd
- Chwarae sy'n archwilio'r tywyllwch – canhwyllau, tortshis a chysgodion

## Nôl i'r hanfodion: technoleg a chwarae

Er ei bod yn bwysig eich bod yn atgoffa'ch hunain o hanfodion gwaith chwarae y mae hefyd yn bwysig eich bod yn cadw'n gyfamserol â'r hyn sy'n newydd. Mae technoleg wedi datblygu ar ei chanfed yn y 26ain mlynedd ddiwethaf, ac er ei bod wedi dod yn un o hanfodion bywyd modern, y mae hefyd wedi cael effaith ar blentyndod.

Drwy ffonau symudol, apiau, sioeau teledu, YouTube, consolau, gliniaduron, setiau radio, teganau electronig a chwaraewyr cerddoriaeth, mae ffyrdd di-ben-draw y gall plant ryngweithio â thechnoleg, ac mae wedi dod yn gymaint o norm cymdeithasol fel y cyfeirir fwyfwy at blant fel 'brodorion digidol'.

Fel sector, gall technoleg fod fel Marmite, yn rhywbeth mae pobl yn ei garu neu ei gasáu, ond mae angen i ni ddod o hyd i ryw fan canol lle y gellir ei defnyddio'n effeithiol fel rhan rydd mewn lleoliadau chwarae, nid drwy ei reoli, ond drwy wella'r cyfleoedd chwarae sydd gan blant. Rhan o hyn yw drwy sicrhau ein bod, fel Gweithwyr Chwarae, yn dal i gymryd yr amser i greu a hwyluso mannau sy'n ddigon cyfoethog a gwahoddgar i wrthbwyso atyniad y sgrin, gan eto gofion nad oes yn rhaid i bethau fod yn un peth neu'r llall. Gall plant ddefnyddio technoleg yn effeithiol yn rhan o'u chwarae, ac mae'n creu mwy o gyfleoedd a phrofiadau lle gallant ymgysylltu â hwy, ond mae nifer o bwyntiau y mae angen inni eu hystyried:

- Deall y dechnoleg ddiweddaraf a chadw'n gyfamserol â threndiau ac apiau digidol.
- Gall gwefannau megis www.internetmatters.org helpu i gefnogi teuluoedd a lleoliadau i gadw'n gyfamserol a deall yr apiau, trendiau a'r newidiadau diweddaraf.
- Diogelu a'r defnydd o ffonau symudol mewn lleoliadau, pa apiau sy'n ddiogel i'w defnyddio, plant yn cymryd ffotograffau ar ffôn symudol personol a'r polisïau ynghylch hyn.
- Y rhyngweithio rhwng plant a sut maent yn defnyddio technoleg i gyfathrebu, cymdeithasu a chwarae.
- Mae Pwyllgor Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ddiweddar wedi mabwysiadu Sylw Cyffredinol 25, sy'n egluro ac yn cryfhau hawl plant i chwarae mewn byd digidol, ac angori hawliau plan ym mhob peth digidol.
- Tlodi digidol; y mae plant sydd heb fynediad at y rhyngrwyd a thechnoleg gartref, yn dibynnu ar leoliad, incwm a.y.b., ac mae'n bwysig y gallant gael y cyfleodd hyn mewn mannau eraill.

Mae cymryd pethau yn ôl i'r hanfodion, adolygu a gwerthuso'ch lleoliad chwarae, adnoddau a'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael i'r plant yn erfyn hunanwerthuso pwysig i leoliadau, yn ogystal ag yn un sy'n adnabod, yn deall ac yn diwallu anghenion y plant yn eich lleoliad. Cymerwch amser i weld pa gyfleoedd sydd ar gael i'r plant yn eich lleoliad, yn ogystal â sut y gallant gael mynediad i dechnoleg a'i hymgorffori yn eu chwarae.



# Egwyddorion Gwaith Chwarae

## Beth yw'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a pham maent yn bwysig i'n harferion?

Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n disgrifio athroniaeth gwaith chwarae - dyma sy'n rheoli ein hymddygiad - Beibl y Gweithiwr Chwarae! Maent yn bwydo ein harferion a'n dulliau ac yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae. Rhaid bod gan weithwyr chwarae wybodaeth dda, gadarn o'r egwyddorion ac agwedd gadarnhaol tuag at blant sy'n chwarae.
Oherwydd bod mannau chwarae plant yn lleihau yn y gymuned o ganlyniad i ffactorau megis ofnau rhieni, trafnidiaeth, adeiladau newydd a.y.b., mae'n rheidrwydd ar Weithwyr Chwarae i greu man chwarae 'digolledol' lle gall plant brofi cyfleoedd chwarae o ansawdd da, a hwylusir gan Weithwyr Chwarae cymwysedig, medrus. Rydym yn fodelau rôl a cyn hyrwyddwyr chwarae, a rhaid i ni fod yn broffesiynol fedrus - gan weithio bob tro o fewn ethos yr Egwyddorion Gwaith Chwarae hyn ...



**Egwyddor Gwaith Chwarae 1** - *"Mae ar bob plentyn a pherson ifanc angen chwarae. Mae'r awydd i chwarae'n un greddfol. Mae chwarae'n angenrhaid biolegol, seicolegol a chymdeithasol, ac mae'n hanfodol i ddatblygiad iach a lles unigolyn a chymunedau."*
**#1 Yn syml** - Mae gan bob plentyn ysfa fewnol i chwarae, yn sylfaenol maent wedi eu 'rhaglennu' i chwarae, mae'n anorfod iddynt! Mae chwarae'n bwysig y tu hwnt i ddatblygiad a lles emosiynol, corfforol a chymdeithasol plant. Mae plant sydd â mynediad at gyfleodd chwarae da yn eu cymunedau'n tyfu'n hyderus ac â synnwyr o berthyn. Mae plant hapus yn dod yn oedolion hapus sy'n creu cymunedau hapus.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 2** - *"Mae chwarae'n broses a ddewisir yn rhydd, a gyfarwyddir yn bersonol ac a gymhellir yn gynhenid. Hynny yw, y plant a'r bobl ifanc fydd yn penderfynu a rheoli cynnwys a bwriad eu chwarae, trwy ddilyn eu greddfau, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain, yn eu ffordd eu hunain ac am eu rhesymau eu hunain."*
**#2 Yn Syml** - Mae chwarae'n broses reddfol naturiol, a rhaid i blant gael y cyfle i ddewis ac i gyfarwyddo eu chwarae eu hunain; a'u gadael i fynegi creadigrwydd, chwilota i'w hamgylchedd a bod â rheolaeth lwyr dros eu profiadau chwarae eu hunain. Mae plant yn dysgu sgiliau datblygiadol a sgiliau bywyd hollbwysig yn uniongyrchol, a dyna pam na ddylai oedolion gymryd drosodd a llywio chwarae plant; dylent yn hytrach eu gadael i ddarganfod, yn annibynnol ohonyn nhw, yr hyn sydd o ddiddordeb iddyn nhw, ac sy'n eu cyffroi - dylem ddim ond darparu adnoddau, offer a.y.b. i ysbrydoli eu dyfeisgarwch a bodloni eu chwilfrydedd.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 3** - *"Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg."*
**#3 Yn Syml** - Prif bwrpasau gwaith chwarae yw cefnogi plant sy'n chwarae mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel ac yn abl i ddefnyddio adnoddau sy'n tanio dychymyg a chreadigrwydd. Drwy arsylwi ar blant yn chwarae ac ennill dealltwriaeth o'u hymddygiadau ac anghenion chwarae, gall Gweithwyr Chwarae gyfrannu'n effeithiol at brosesau llunio polisïau a gwneud-penderfyniadau sy'n cynnwys chwarae ac agweddau at chwarae.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 4** - *"I weithwyr chwarae, y broses chwarae fydd flaenaf a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae wrth ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion."*
**#4 Yn Syml** - Mae Gweithwyr Chwarae'n hyrwyddo chwarae mewn modd cadarnhaol mewn cymunedau ac y n sicrhau bod plant yn cael y profiadau chwarae gorau posibl. Rhaid i ni fynd ati i gael gwared â rhwystrau o ran agwedd, rhwystrau corfforol, amgylcheddol a threfniadol, drwy sicrhau nad effeithir ar brofiadau'r plant gan bethau sy'n rhwystro chwarae rhag digwydd. Er enghraifft, canolfannau nad ydynt yn goddef 'annibendod'- agenda a arweinir gan oedolion - byddem yn negodi ac yn dod o hyd i ddatrysiadau, megis gosod tarpaulin ar y lloriau rhag i baent ollwng arnynt a.y.b.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 5** - *"Rôl y gweithiwr chwarae yw cefnogi POB plentyn a pherson ifanc i greu man y gallant chwarae o'i fewn."*
**#5 Yn Syml** - Mae Gweithwyr Chwarae'n cefnogi POB plentyn i chwarae, beth bynnag fo'u hamhariadau, eu gallu, eu diwylliant, hil, rhywedd, ymddygiad, crefydd neu angen. Mae Gweithwyr Chwarae'n ymgynghori â Phob plentyn i wybod eu hanghenion a'u hoffterau, ac yn darparu adnoddau a chyfleoedd mewn man chwarae lle mae ganddynt berchnogaeth ar eu chwarae, a lle y gallant ei ddewis yn rhydd.


**Egwyddor Gwaith Chwarae 6** - *"Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol."*
**#6 Yn Syml** - Rhaid i Weithwyr Chwarae dderbyn hyfforddiant yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a bod â dealltwriaeth o ddamcaniaeth chwarae; rhaid i ni ddefnyddio dull gwaith chwarae ac adnabod manteision datblygiadol chwarae. Rydym yn myfyrio'n gyson ar ein harferion er mwyn gwella a datblygu ein sgiliau a'n hagwedd at chwarae. Arfer myfyriol yw pan fyddwn yn edrych yn ôl ar ein perfformiad dros ddiwrnod/wythnos ac yn ystyried sut y gallem wella'r man chwarae; neu edrych ar ein hymatebion i'r plant a dod i weld p'un a wnaethom ymagweddu'n gywir ai peidio - rydym yn ymdrechu'n gyson i wella ein perfformiad.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 7** - *"Mae gweithwyr chwarae'n cydnabod eu heffaith eu hunain ar y gofod chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithwyr chwarae."*
**#7 Yn Syml** - Mae Gweithwyr Chwarae'n ymwybodol o'u dylanwad ar y man chwarae ac ar y plant a'r bobl ifanc; er enghraifft, os oes Gweithiwr Chwarae ag ofn gwirioneddol tân, ni fyddem yn eu rhoi yng ngofal cyfle sy'n ymwneud â thân gan y byddai ei ofnau/hofnau'n cael eu trosglwyddo i'r plant. Byddwn hefyd yn ymwybodol o'r effaith y bydd y plant yn ei chael arnom ni, er enghraifft, gallai ymddygiad plentyn ein digio, neu'n gadael yn teimlo'n anghysurus, mewn sefyllfa o'r fath rydym yn deall bod gennym oll wahanol safbwyntiau a moesau, ond rydym yn parchu'r ffaith honno ac nid ydym yn ceisio gorfodi ein credoau ein hunain ar y plant a'r bobl ifanc.

**Egwyddor Gwaith Chwarae 8** - *"Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg a budd datblygiadol a lles plant."*
**#8 Yn Syml** - Dylai Gweithiwr Chwarae ddefnyddio set o ddulliau cyffredin, effeithiol at chwarae - sy'n golygu'r radd leiaf bosibl o ymyrraeth; er enghraifft, ni ddylem ymyrryd ym mhrofiad chwarae'r plentyn ac eithrio pan allai ef/hi gael niwed. Byddem yn hyrwyddo profiadau uniongyrchol drwy adael i'r plant wella eu perfformiad eu hunain - nid ydym y cymryd drosodd. Rydym yn cefnogi ac yn hwyluso chwarae drwy aros yn ôl ac arsylwi, a sicrhau bod digon o adnoddu yn y man chwarae. Rydym yn rhoi cyfleodd i'r plant negodi risgiau priodol er mwyn herio'u hunain a meithrin gwydnwch; rydym yn deall buddion risg mewn chwarae ac yn rhoi mesurau yn eu lle i leihau risgiau annerbyniol - mae plant wedi'u geni i chwarae - ond maent hefyd wedi'u geni i oroesi - a RHAID iddynt gael cyfle i ddatblygu eu sgiliau rheoli risg drwy chwarae.

# Gemau Traddodiadol o bedwar ban byd







**Y Weriniaeth Tsiec** – A wyddech chi mai'r Weriniaeth Tsiec sydd â'r mwyaf o gestyll yn Ewrop? Mae yno dros 2000 o gestyll a phlastai. Ymhlith yr enwocaf y mae Castell Hluboká, Castell Orlík, Castell Lednice a Chastell Karlštejn.

**Gêm: Tenis Pêl-droed**

**Beth fydd arnoch eu hangen:**
- Pêl
- Rhwyd gwneud/rhwyd cartre

**Chwaraewyr:** dau chwaraewr neu fwy

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**
- Bydd angen i'r chwaraewyr godi ffens neu rwyd – rhwyd go iawn neu gadeiriau lawnt wedi'u gosod nesaf at ei gilydd.
- Bydd angen i'r chwaraewyr drefn eu hunain yn ddau dîm.
- Y nod yw cael y bêl dros y rhwyd ac i mewn i ardal y tîm arall heb iddynt ei dychwelyd.
- Dim ond unwaith y caiff y bêl fownsio cyn ei dychwelyd dros y rhwyd.
- Yn wahanol i denis a defnyddio raced, yma dim ond eich traed a allwch eu defnyddio, a phêl-droed, nid pêl tenis.
- Yr un sy'n sgorio'r mwyaf o bwyntiau yw'r enillydd.

**India** – Mae pentref yn India o'r enw Meghalaya wedi ennill teitl record y byd Guinness am fod y lle gwlypaf ar y Ddaear mae'n derbyn tuag 11,873 mililitr o law yn flynyddol. Mae tymor y monsŵn yn para chwe mis.

**Gêm: Tshitas a Tsitals**

**Beth fyddwch eu hangen:**
- Does dim angen unrhyw adnoddau i'r gêm hon.

**Chwaraewyr:** pum chwaraewr neu fwy

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**
- Chwaraeir y gêm hon gan blant o bob oed yn strydoedd India.
- Rhennir y plant yn ddau grŵp ac etholir un plentyn i arwain y gêm.
- Daw'r chwaraewr hwnnw'n "dywysog" neu "dywysoges" y "Tshitas" (cathod mawr braith) a'r "Tshitals" (ceirw brith).
- Rhaid i'r ddau dîm ffurfio llinell lorweddol a sefyll â'u cefnau at y tîm arall, tua phum troedfedd ar wahân.
- Bydd y tywysog neu'r dywysoges yn bloeddio "Tshiiiiiii—tals" (neu "Tshitas"), ar y pwynt yma mae'r tîm y galwyd eu henw'n rhuthro tuag at eu "Safle" wrth i'r tîm arall geisio'u dal.
- Os ydyn nhw'n eu dal, mae'n rhaid iddyn nhw ymuno â nhw.
- Y nod yw i'r tîm y gelwir ei enw i gael mwy o chwaraewyr i'w safle nhw nag a all y tîm arall eu tagio allan.

**De Affrica** - TYno y digwyddodd y trawsblaniad calon gyntaf yn y byd yn 1967. Perfformiwyd y trawsblaniad gan Dr Christiaan Barnard yn Ysbyty Groote Schuur Hospital yn Cape Town.

**Gêm: Ymestyn**

**Beth fyddwch eu hangen:**
- ffyn bach

**Chwaraewyr:** dau chwaraewr neu fwy

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**
- Y chwaraewyr i benderfynu ar fan cychwyn a'i ddynodi.
- Chwaraewr i roi ffon ar y ddaear a neidio o'r man cychwyn dros y ffon.
- Chwaraewr Un yn symud y ffon i'r lle y glaniodd wedi ei naid.
- Yna rhaid i Chwaraewr Dau neidio dros y ffon yn ei lle newydd, o'r man cychwyn gwreiddiol.
- Os llwyddan nhw, maen nhw'n symud y ffon i'r lle y gwnaethon nhw lanio. Os na lwyddan nhw, maen nhw allan.
- Y chwaraewr sy'n gallu neidio bellaf yw'r enillydd.
- Bydd Chwaraewr Tri (neu Chwaraewr Un os dim ond dau sy'n chwarae) yn cymryd eu tro, yn awr yn neidio heibio'r ffon lle gadawodd Chwaraewr dau hi. Os ydyn nhw'n methu â chyrraedd y pellter, maen nhw allan.









# Nôl i'r hanfodion

## – Mae Adeiladu'ch Iechyd fel Adeiladu Tŷ

*Joanne Crovini – Maethegydd, Caerdydd*

Mae adeiladu'ch iechyd fel adeiladu tŷ. Mae angen i chi fod â sylfeini cryf neu bydd yn dymchwel unwaith y daw o dan bwysau. Mae arnoch angen cynllun a fydd yn gwrthsefyll adegau gwyliau, partïon ac wythnosau gweithio gwallgo', yn yr union ffordd y mae ar dŷ angen sylfaen sy'n gwrthsefyll gwynt a stormydd.

Mae angen i chi ffocysu ar y pethau syml fesul un. Heddiw rwyf am sôn am ddau o'r peth elfennol sy'n ffurfio sylfaen eich cynllun iechyd.

**1. Dŵr**

**Pam yfed dŵr?**
Mae 60-70% o'ch corff yn ddŵr. Gall bod yn sychedig arwain at gur pen, blinder, ymennydd niwlog, a gall eich gwneud yn benysgafn. Os ydych am fod yn gynhyrchiol ac â meddwl miniog, mae angen i chi yfed.

Gall dadhydradiad yn y tymor hirach olygu croen sych, rhwymedd a phwysau gwaed isel, yn ogystal â gorfwyta am ein bod yn drysu rhwng chwant bwyd a syched.

**Faint o ddŵr?**
Does dim un swm sy'n addas i bawb. Ar ddiwrnod poeth, neu os yw'r gwres ymaeln, neu os ydych yn ymarfer eih corff, bydd arnoch angen mwy. Os ydych yn bwyta llwyth o ffrwythau a llysiau mae'n bosibl y bydd arnoch angen llai.

Rydych eisoes wedi clywed y canllawiau, ac ni fyddai minnau'n ailadrodd 'rhwng chwech ac wyth gwydraid' yn help i chi. Yn hytrach, ceisiwch ddechrau'r diwrnod â gwydraid o ddŵr - gadewch un ar eich bwrdd ger y gwely ac yfwch hwn ynn syth wedi i chi ddeffro.

**Ond mae dŵr yn anniddorol...**

Ceisiwch ychwanegu gwasgiad o lemwn, ambell dafell o sinsir neu ddail mintys. Bydd arllwys dŵr berwedig ar ddail mintys neu dafellau o sinsir yn rhyddhau'r blas a gallwch yfed hwn yn boeth neu'n oer. Mae trwythau ffrwyth oer hefyd yn wych, ac mae dŵr pefriog gydag iâ a lemwn yn adfywio.

Mae te perlysiau a the ffrwyth hefyd yn cyfrif, felly ewch am y rheiny os yw'n well genych opsiwn poeth.

**2. Protein**
A ydych chi'n dioddef o'r 'pant prynhawn' pan fyddwch yn teimlo fel pendwmpian wrth eich desg, yn ei chael yn anodd canolbwyntio ac â blys am garbohydradau (neu garbs), siwgr neu gaffein?

Mae'n debygol mai'r canlyniad canolbwyntio ar garbs megis tost a grawnfwyd i frecwast sy'n arwain at hyn. Nid ydyn yn eich cadw'n llawn nad yn cydbwyso'ch egni.

Bydd protein yn eich helpu i deimlo'n llawn a lleihau'r blysio. Edrychir heibio i hyn yn aml pan fyddwch yn brysur ac yn cipio tamaid i'w fwyta wrth fynd a dod.

**Pam fod protein yn help?**
Mae protein yn eich helpu i deimlo'n llawn a bodlon. Mae'n arafu'ch cyflymder yn llosgi'ch carbs ac yn lleihau blys a chwant bwyd.

Bydd dechrau'r dydd â brecwast yn seiliedig ar brotein yn eich cadw'n llawn hyd at adeg cinio AC yn golygu y bydd yn haws gwneud dewisiadau bwyd iachus yn nes ymlaen yn y dydd.

**Ble ddowch chi i hyd iddo?**
Mewn cig, pysgod, wyau a chynnyrch llaeth, ond hefyd mewn bwydydd o blanhigion megis ffacbys, gwygbys, ffa, cnau, hadau a tofu. Y ffordd hawsaf o wneud yn siŵr eich bod yn cael digon yw cael ychydig gyda phob pryd a byrbryd.

**Dechrau â brecwast**
- Iogwrt naturiol gyda llus a darnau bychain o gnau ffrengig mâl
- Diod protein gyda mafon
- Wyau wedi'u sgramblo gyda thomato neu fadarch wedi'u grilio

Byddai'n dda iawn gen i wybod sut fyddwch hi'n dechrau'ch diwrnod! Rhowch wybod i mi drwy anfon y manylion ataf ar e-bost.

Jo
www.cardiffnutritionist.co.uk
joanne@cardiffnutritionist.co.uk
Cymerwch reolaeth o'ch iechyd ...
07701 059 999 neu 029 2066 674



# Prosiectau

**Cysylltu a Chefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol a Chymunedau drwy ein Prosiect dan nawdd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (Pawb a'i Le)**

Wrth i ni ddechrau trydedd flwyddyn ein Prosiect Pawb a'i Le, sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, hoffem ddathlu eich cyflawniadau a hyrwyddo'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig i chi dros y flwyddyn nesaf yma.

**Beth ydych chi wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn drwy'r prosiect yma?**
Er gwaetha'r cymhlethdodau parhaus a ddaeth yn sgil y pandemig, rydych wedi dal i ymdrechu i gael y ddarpariaeth chwarae a gofal orau bosibl i blant a theuluoedd, gan hefyd wella'ch cynaliadwyedd a'ch llywodraethiad drwy:

- ymgymryd â chyfleoedd i hyfforddi drwy gyfrwng 696 o sesiynau sgiliau busnes a 14 digwyddiad rhwydwaith
- ymgysylltu â'n herfyn gwella ansawdd, sef yr Asesiad Gofal Plant Allysgol (AGPA) a datblygu cynlluniau gweithredu (23),
- cofrestru eich lleoliadau yn Sefydliadau Cofrestredig Elusennol a gwella llywodraethiad mewn ffyrdd eraill (18)
- gwella ansawdd a fforddiadwyedd drwy weithio tuag at gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac i gynnig Gofal Plant Di-dreth a'r Cynnig Gofal Plant (20)
- Defnyddio'r 140 o adnoddau y mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi eu datblygu dros y flwyddyn i helpu i wella arferion.

**Sut allwch chi elwa o'r prosiect yn y dyfodol?**
Mae gennym 3 Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant a all barhau i'ch cefnogi.

Lle rhagorol i ddechrau yw'r Asesiad Gofal Plant Allysgol, holiadur gwiriad iechyd busnes syml, sy'n gofyn i chi fyfyrio ar wahanol agweddau ar eich busnes, megis darparu chwarae, hyfforddiant ac ansawdd, marchnata, llywodraethiad, rheolaeth ariannol a hyrwyddo. Y mae hefyd yn cefnogi eich Ansawdd Gofal, sydd angen ei ddiweddaru ar gyfer eich Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Yna gall yr Asesiad Gofal Plant Allysgol (AGPA) cyflawn eich helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau, eich cynorthwyo ar bob cam a rhoi arweiniad ac adnoddau i gefnogi unrhyw anghenion a nodwyd.

Mae mwy a mwy o glybiau a reolir yn wirfoddol yn troi at ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant i adolygu eu **llywodraethiad a datblygu strwythurau** a fydd yn diogelu'n fwy effeithiol aelodau pwyllgorau rhan rwymedigaethau a allai godi. Os hoffech gefnogaeth ar symud at strwythur sy'n rhoi mwy o ddiogelwch, neu ffyrdd eraill y gallwch gyfyngu ar eich atebolrwydd, cofiwch gysylltu. Y llynedd fe wnaethom gyflenwi 14 digwyddiad ar-lein i gysylltu'r gymuned, adeiladu ar y cryfderau a chadw clybiau'n ymwybodol o newidiadau mewn polisi. Daeth y pynciau yma'n uniongyrchol oddi wrthych chi (drwy werthusiadau, Asesiadau Clybiau Allysgol ac adborth uniongyrchol i staff y prosiect).

**Fe ddywedoch chi wrthym** eich bod yn awyddus i gael gweminarau am: reoli cyllid/cyfrifon, codi arian, archwiliadau AGC, chwarae, diogelu, rheoli staff a chontractau, cefnogaeth gyffredinol/rhwydweithio, adnoddau a'r amgylchedd. Fe wnaethom gyflenwi gweminarau'n rhoi sylw i bob un o'r rhain a mwy, felly cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw themâu/pynciau yr hoffech i ni roi sylw iddynt mewn gweminarau rhwydweithio yn y dyfodol.

***"Yn cael y sesiynau yma'n ddefnyddiol iawn. Roedd yn dda cael help a chyngor."***

# Camau

Mae Poppy'n gweithio ar hyn o bryd mewn Clwb Ôl-ysgol ac mewn Meithrinfa fel Nyrs Meithrinfa.

Yn dilyn e-bost gan Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn hyrwyddo Camau, penderfynodd Poppy ymrestru ar y cwrs Mynediad Rhan 1 i'w chefnogi i wella ei sgiliau Cymraeg i'w defnyddio yn y lleoliad. Wedi ei gwblhau, fe wnaeth ymrestru ar y cwrs Mynediad Rhan 2.

Mae cyrsiau Camau wedi gwella hyder Poppy o ran siarad Cymraeg. Mae'r gwelliant yn ei hyder wedi rhoi iddi'r gallu i siarad yn llawer amlach drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu rolau gofal-plant ac addysgol.

Drwy ei gallu i siarad â'r plant yn yr iaith o'u dewis Mae Poppy wedi gweld bod y plant sy'n mynychu'r ysgol cyfrwng-Cymraeg yn ymateb yn well pan mae'n siarad â nhw yn Gymraeg.

Gan roi ei hyfforddiant ar waith, mae Poppy wedi cyflwyno adnoddau Cymraeg i'r lleoliad, ac yn ystod amser cylch maen nhw'n trafod lliwiau, rhifau, diwrnodau'r wythnos a'r tywydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Poppy'n teimlo'n fwy hyderus yn awr yn defnyddio'r iaith Gymraeg, ac mae'n ei chael yn sgil ddefnyddiol iawn ar gyfer ei gwaith. Gan argymell CAMAU ar gyfer unrhyw hyfforddiant yn y Gymraeg yn y dyfodol, dywed Poppy:

*"Mae'r cyrsiau dysgu hunan-astudio ar-lein yn dda iawn, ac yn hawdd i chi weithio drwyddyn nhw ar eich cyflymder eich hun ac yn eich amser eich hun. Adnoddau da iawn ynddo i'ch helpu i ddysgu Cymraeg. Mae cyfathrebu'n dda pan fyddwch chi'n e-bostio [y Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg], a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei chynnig hefyd drwy gyfrwng galwadau gwe a.y.b. a'r sgwrsio taro-heibio misol gyda'r nos."*

Ydych chi am ehangu eich gwybodaeth a'ch hyder i ddefnyddio'r Iaith Gymraeg neu gynyddu'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn eich lleoliad Gofal Plant?

Cwrs Hunan-astudio Ar-lein ar lefel Mynediad, yw Camau, un sydd wedi ei ariannu'n llawn:

- Tua 20 awr o ddysgu annibynnol;
- Dysgu'r Gymraeg i'w defnyddio gyda'r plant yn y lleoliadau;
- Ynganu'r wyddor, lliwiau, dyddiau'r wythnos a rhifau;
- Dysgu gorchmynion a chyflwyno arddodiaid.

Cysylltwch â'n Swyddog Cefnogi Iaith Gymraeg, sianej@clybiauplantcymru.org, am fwy o wybodaeth.

# Sefydliad Moondance

Mae'n achos cryn gyffro i Glybiau Plant Cymru Kids' Clubs gyhoeddi y dyfarnwyd arianna i ni drwy Sefydliad Moondance i gefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol.

Caiff yr arian ei ddefnyddio i gefnogi cynaliadwyedd a galluogi lleoliadau newydd i agor. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant.

**Ymunwch â Haf o Hwyl Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs!**

Rydym wedi llwyddo i dderbyn arian drwy Haf o Hwyl i gynnal 3 digwyddiad ar draws Cymru yr haf yma; lle byddwn yn:

- Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae i blant
- Eiriol dros y Sector Gofal Plant Allysgol ac yn annog teuluoedd i chwilio am glybiau lleol a'u defnyddio
- Arddangos y mathau o weithgareddau hwyliog sydd ar gael fel arfer mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol, megis rhai'n defnyddio rhannau rhydd, chwarae'n seiliedig ar yr elfennau naturiol ac amrywiaeth o fathau chwarae.
- Annog mwy o oedolion i ystyried gwaith chwarae yn opsiwn gyrfa drwy arsylwi ar weithwyr chwarae ar y dydd.
- Cynnal 2 sesiwn ym mhob digwyddiad, a thua 125 o blant a'u teuluoedd mewn sesiwn unigol.

**Dyddiadau**

- De Dwyrain Cymru – Dydd Sadwrn, Gorffennaf 2ail, 2022
- Gorllewin Cymru – Dydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed, 2022
- Gogledd Cymru – Dydd Sadwrn, Medi 3ydd, 2022

**Sut y gallwch fod yn rhan o hyn**

- Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu'r digwyddiad yn eich rhanbarth chi a rhoi cyhoeddusrwydd i'ch clwb a'ch gwasanaethau, cysylltwch ag info@clybiauplantcymru.org.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu eich posteri hyrwyddo, sydd wedi eu hanfon at bob aelod.



# A ydych chi'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol?

P'un a ydych yn paratoi i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), yn gwneud yn siŵr eich bod yn barod am archwiliad neu ddim ond yn aros i wneud yn sicr bod eich polisïau a'ch arferion yn eich gwarchod chi, eich staff a'r plant yn eich gofal, rydym wedi casglu at ei gilydd ambell i air o gyngor i'ch helpu a phwyntiau i'w hystyried. Nid rhestr gyflawn mo hon, a dylid ei hystyried ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a dogfennau cefnogol eraill (er enghraifft, ein hadnodd "Camu Allan").

## 1. Datganiad o Ddiben

Thema gyffredin yn yr adborth a ddarperir gan Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch y Datganiad o Ddiben yw bod prinder manylion, yn arbennig parthed polisïau a gweithdrefnau eraill e.e. Cwynion. Ni ddylai'ch Datganiad o Ddiben ddim ond cyfeirio at eich polisïau a'ch gweithdrefnau, dylai hefyd gynnwys crynodeb defnyddiol o'r wybodaeth berthnasol a gynhwysir yn eich polisi. Dylai'ch Datganiad o Ddiben adlewyrchu'r gwasanaeth yr ydych yn ei chynnig ar hyn o bryd, a rhaid iddo gynnwys manylion y person sy'n gyfrifol am ei ddiweddar, pa mor aml y bydd yn cael ei adolygu/diweddaru a'r dyddiad y'i diweddarwyd ddiwethaf.

## 2. Cwynion

Rhaid i'r Person Cofrestredig/Rheolwyr baratoi a dilyn Gweithdrefn wynion sy'n cynnwys darparu ar gyfer cwynion a wneir am y Person Cofrestredig. Dylai'r plant, rhieni/gofalwyr, staff a'r awdurdod lleol sy'n trefnu gofal plant i blentyn oll fod yn ymwybodol o'r weithdrefn. Tra dylid gwneud pob ymdrech i ddatrys cwynion yn lleol, rhaid i'r achwynydd gael gwybod am eu hawl i gwyno i asiantaeth y tu allan i'r clwb eu hunain lle bo hynny'n berthnasol e.e. yr awdurdod lleol, Arolygiaeth Gofal Cymru (yn cynnwys manylion sut i gysylltu 6a'r swyddfa AGC berthnasol). Dylai'r weithdrefn a'r polisi hefyd gyfeirio at '**gwynion sy'n ddarostyngedig i ystyriaeth gydamserol**' lle gallai cwyn fod yn rhan ymchwiliad arall, ehangach (e.e. diogelu neu ddisgyblu staff) neu lle bydd bwriad (gan yr achwynydd, y Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol neu berson/corff arall) i ymgymryd â chamau cyfreithiol. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol ystyried, mewn ymgynghoriad â'r achwynydd ac unrhyw asiantaeth berthnasol arall, sut yr ymdrinnir â'r gŵyn. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn ein templed, Gweithdrefn Gwynion, yn Camu Allan, Cam 10.

Rhaid i achwynwyr gael eu hysbysu o ganlyniad y r archwiliad o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y derbyniodd y clwb y gŵyn, er, y gellir ymestyn y penderfyniad hwn am 14 diwrnod pellach os yw'n angenrheidiol. Rhaid cadw cofnodion cywir a manwl o enw'r achwynydd, y gŵyn, y dyddiad a'r amser, y camau a gymerwyd, canlyniadau'r archwiliad a'r wybodaeth a roddwyd i'r achwynydd, yn cynnwys dyddiad yr ymateb.

## 3. Asesiadau risg

Wrth adolygu cais am gofrestru, neu wrth ddarllen eich gwaith papur fel rhan o archwiliad, mae Arolygiaeth Gofal Cymru am weld asesiadau risg sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'ch darpariaeth, wedi'u cwblhau. Er bod Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn darparu templedi asesiadau risg (asesiad risg cyffredinol/rhestr wirio, a thempled penodol i weithgaredd) y mae'n gwbl hanfodol eich bod fel clwb yn cwblhau'r rhain ac yn gwneud y cynnwys yn berthnasol i'ch amgylchiadau arbennig. A oes ystyriaethau staffio penodol sydd angen eu hasesu o ran risg e.e. staff/gwirfoddolwyr o dan 18 blwydd oed; staff sy'n feichiog, staff heb eu brechu, staff â chyflyrau arbennig neu bryderon iechyd? Pa agweddau o'ch man cyfarfod/llwybr o'r ysgol/yr ardal y tu allan sydd angen eu hasesu o ran risg er mwyn lleihau'r risgiau posibl? A oes risgiau arbennig sydd angen eu hasesu mewn perthynas â phlant yn eich gofal e.e. alergeddau sy'n gofyn am hyfforddiant penodol i'r staff?

I gyfateb â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol rhaid i chi wneud asesiad risg o'r adeilad unwaith (o leiaf) bob blwyddyn a rhaid adolygu hyn pan geir unrhyw newidiadau i'r adeilad (yn cynnwys yr ardal y tu allan a'r llwybr o/i'r ysgol) neu anghenion y plant, ynghyd â chynllun gweithredu sy'n cynnwys graddfeydd amser a'r camau y mae angen eu cymryd i leihau'r risgiau.

## 4. Cyfleoedd cyfartal

Y Person Cofrestredig sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyfle cyfartal, yn gyson â'r ddeddfwriaeth gyfredol ac arferion anwahaniaethol, y cael ei hyrwyddo yn y lleoliad mewn perthynas â phlant ac oedolion (yn cynnwys staff). Dylid adolygu'r Polisi Cyfle Cyfartal yn rheoliad, a dylai fod yn ddealladwy i'r holl staff a gwirfoddolwyr. Dylai arferion da fod yn weladwy ym mhob maes, yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) recriwtio, mynediadau, hygyrchedd, hyfforddiant, adnoddau a gweithgareddau. Y mae'n syniad da gwneud cyfle cyfartal ac arferion anwahaniaethol yn eitem reolaidd mewn cyfarfodydd staff a goruchwyliadau, ac i fabwysiadu polisïau ac arferion eraill megis Rhestr Wirio Cyfartaledd Chwarae a Pholisi Recriwtio cynhwysfawr. Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs adnoddau amrywiol a all eich cefnogi. Cafodd ein rhifyn Gwanwyn o'r Bont ei neilltuo ar gyfer Cyfartaledd, Amrywedd a Chynhwysiant (e.e. erthygl ar '10 Ffordd o Gefnogi Amrywedd Diwylliannol') ac roedd ein rhifyn Gaeaf 2021 yn cynnwys erthygl ar greu gweithle cynhwysol.






## 5. Plentyn coll / Plentyn nas Casglwyd

Mewn rhai ceisiadau diwedd i gofrestru, mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi nodi nas cynhwyswyd Polisi Plentyn Coll/Plentyn nas Casglwyd. Yn Camu Allan mae gennym Bolisi a Gweithdrefn Plentyn Coll, a Pholisi Cyrraedd/Casglu sy'n cynnwys y weithdrefn i'w dilyn petai rhiant/gofalwr heb gasglu plentyn.

## 6. Anghenion ychwanegol

Yn ogystal â'ch Polisi Cyfle Cyfartal rhaid i chi hefyd fod â pholisi sy'n ymdrin â'r ffordd yr ydych yn cynorthwyo plant ag Anghenion Ychwanegol i gyrchu'ch gwasanaethau. Dylai'r polisi hwn gynnwys cyfeiriadau at y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) a'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd ein templed Camu Allan (Polisi Anghenion Ychwanegol Unigol) yn fan cychwyn defnyddiol i chi.

## 7. Ymddygiad

Fel Person Cofrestredig rhaid i chi ddatblygu a rhoi ar waith Bolisi Rheoli Ymddygiad sy'n gosod i lawr y mesurau rheoli, cyfyngu a disgyblu y gellir eu defnyddio, a'r dulliau o hyrwyddo ymddygiad priodol. Tra bo Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 yn amlinellu'r camau na all rheolwyr eu defnyddio (e.e. y defnydd o / adal meddyginiaeth fel mesur disgyblaethol, cosbi grŵp o blant am ymddygiad un plentyn, cosbi corfforol, cymryd/amddifadu o fwyd neu ddiod), ni waherddir camau gan(neu yn unol â chyfarwyddiadau) ymarferydd meddygol/deintyddol cofrestredig sy'n angenrheidiol i ddiogelu iechyd y plentyn, na chymryd chamau yn syth i arbed anaf i berson neu niwed difrifol i eiddo.

Dylai'ch Polisi Rheoli Ymddygiad (neu bolisïau ychwanegol) hefyd gwmpasu disgwyliadau cysylltiedig ag ymddygiad staff, rheolwyr, rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr.

## 8. Cyfrinachedd

Rhaid bod gennych Bolisi Cyfrinachedd yn ei le, un a ddylai gynnwys gwybodaeth am y ffordd yr ydych yn cadw gwybodaeth gyfrinachol a chofnodion angenrheidiol yn ddiogel (Gall hyn fod yn gynwysedig mewn Polisi Diogelu Data ar wahân). Rhaid trafod unrhyw geisiadau gan drydydd partïon am wybodaeth gyda rhieni/gofalwyr, a dim ond gyda'u caniatâd hwy y dylid rhannu gwybodaeth. Gellir gwneud eithriad lle ceir gofyniad i adrodd ar bryderon ynghylch lles neu ddiogelwch y plentyn; er enghraifft, yn gysylltiedig ag amddiffyn plant.

## 9. Meddyginiaeth

Yn unol â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, rhaid i'r Person Cofrestredig wneud trefniadau addas i gadw moddion yn ddiogel, gan sicrhau y caiff plant eu hatal rhag eu cyrchu heb oruchwyliaeth, bod moddion yn cael ei weinyddu yn ôl y rhagnodiad a bod cofnod ysgrifenedig o weinyddu moddion. Rhaid i'r cofnod hwn gynnwys y dyddiad, amgylchiadau'r gweinyddu, gan bwy y cafodd ei weinyddu( e..e enw'r aelod staff / enw'r plentyn os gwnaethant ei weinyddu eu hunain) a chofnod o ganiatâd y rhiant.

Dylai eich Polisi Meddyginiaeth wneud yn glir eich gweithdrefn o weinyddu meddyginiaeth, a dylai'r arfer adlewyrchu'r hyn a ganiateir o ran eich yswiriant. Lle gweinyddir dosau gartref cyn cyrraedd y lleoliad, dylech hefyd fod yn cofnodi'r adegau a'r dos i sicrhau bod moddion yn cael ei weinyddu yn ôl a ragnodwyd.

## 10. Gwahardd oherwydd salwch

Rhaid bod gennych Bolisi sy'n cynnwys gwahardd plant oherwydd salwch. Yn Camu Allan rydym wedi cynnwys hy yn y Polisi Hylendid a Gofal Iechyd yng Ngham 10. Dylai'ch arferion fod yn unol â'r ddeddfwriaeth ar iechyd a diogelwch, a dylai'ch gweithdrefn gynnwys achosion lle bydd plentyn yn syrthio'n sâl yn y lleoliad, a gweithdrefnau ar gyfer clefydau heintus sy'n rhoi amlinelliad o gyfnodau gwahardd clir.

## 11. Gweithdrefnau damweiniau/argyfwng

Rhaid bod gennych weithdrefnau addas yn eu lle ar gyfer ymateb i ddamweiniau, digwyddiadau ac argyfyngau, a'u cofnodi. Rhaid i chi wneud trefniadau digonol ar gyfer darganfod, cyfyngu a diffodd tanau, yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar, gwacáu yn ddiogel pob oedolyn a phlentyn, trefnu hyfforddiant ar atal tân i'r staff sy'n gweithio gyda'r plant, a sicrhau bod yr holl staff a phlant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn, drwy gyfrwng driliau ac arferion. yn achos tân.

Rhaid cynnwys driliau tân a driliau gwacáu gwrthwynebol (yr olaf pan fydd yr amodau y tu mewn i adeilad yn fwy diogel na'r amodau y tu allan) yn eich Polisi, y rhain i'w cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi'n ysgrifenedig. Bydd rheoleidd-dra'r driliau hyn yn amrywio yn ddibynnol ar gam datblygu a dealltwriaeth y plant yn eich gofal, hyder y staff a chymhlethdod/cynllun eich man cyfarfod. Ffordd dda o ddod i benderfyniad ac amlder driliau (a chael tystiolaeth eu bod yn ddigonol) yw drwy gynnwys sylwadau cryno yn eich cofnodion ar gyflymder, hyder, y wybodaeth a arddangoswyd, ymgysylltiad a llwyddiant cyffredinol pob dril.

## 12. Diogelu

Rhaid i bob Clwb Gofal Plant Allysgol fod â Pholisi a Gweithdrefn Amddiffyn Plant/Diogelu yn eu lle; dylid adolygu'r rhain o leiaf unwaith y flwyddyn, a phan fydd unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Hefyd, dylai pob aelod o'r staff sy'n gweithio gyda plant gael eu hyfforddi mewn Diogelu, a dylent ddeall eu cyfrifoldebau unigol i ddiogelu plant, ynghyd â'r weithdrefn y dylent ei mabwysiadu os oes ganddynt bryderon. Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i adrodd ar bryderon yn ôl gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol yn ddi-oed.

Gwnewch y siŵr eich bod wedi adolygu eich Gweithdrefnau Diogelu/Amddiffyn Plant yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru (a lansiwyd yn Nhachwedd 2019). Dylech hefyd sicrhau bod eich polisïau' cwmpasu Prevent a Chaethwasiaeth Fodern. Mae templedi o bolisïau a gweithdrefnau, yn cynnwys rhai sy'n gysylltiedig â Diogelu, ar gael yn Camu Allan, Cam 10.

# Cynhadledd a Seremoni Wobrwyo Allysgol 2022

Fel Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs fe wnaethom gynnal ein Cynhadledd a Seremoni Wobrwyo Allysgol Cyntaf ar Fawrth 30ain March, ac roedd yn wych cael cymaint o Glybiau Gofal Plant Allysgol yn bresennol. Roedd y gynhadledd yn un gyntaf mewn mwy nag un ffordd i ni, gyda'n defnydd o blatfform newydd, StreamYard, a'n galluogodd i ffrydio'n fyw i YouTube. Diolchwn yn ddiffuant i'r siaradwyr a fu'n rhan o'r gynhadledd: Nicola Edwards (Llywodraeth Cymru), Kevin Barker (Arolygiaeth Gofal Cymru) ac Andrew Bell (Gofal Cymdeithasol Cymru) am eu diweddariadau llawn gwybodaeth.

Yn ôl ym mis Chwefror fe wnaethom gyhoeddi 9 Gwobr y gallai Gweithwyr Chwarae, Gwirfoddolwyr, Rheolwyr a Chlybiau ar draws Cymru gael eu henwebu ar eu cyfer. Cawsom enwebiadau gan Weithwyr Chwarae, clybiau, rhieni/gofalwyr, plant a phobl broffesiynol a oedd yn gweithio ochr yn ochr â'r sector; rhestrir uchod y clybiau a'r unigolion a roddwyd ar y rhestr fer. Hoffem ddweud llongyfarchiadau mawr eto i'r holl glybiau a'r Gweithwyr Chwarae/gwirfoddolwyr a roddwyd ar y rhestr fer ar gyfer ein 9 Gwobr. Roedd yn arddercho darllen yr enwebiadau a dderbyniwyd a chlywed am yr effaith yr ydych wedi ei chael ar blant a theuluoedd ar hyd a lled Cymru. Mae'n fraint eich cefnogi chi a'ch clybiau - diolch am weithio mor galed i wneud gwahaniaeth.

## Y Clybiau a'r Gweithwyr Chwarae a gyrhaeddodd y rhestr fer







### Gweithiwr Chwarae'r Flwyddyn

**Jane Anderton, Tots 2 Teens, Sir Benfro**

*"Unigolyn uchel ei gymhelliad sydd wedi gweithio'n aruthrol o galed dros y 2 flynedd ddiwethaf i hyrwyddo a chefnogi hawliau plant i chwarae, gan ddangos empathi ac angerdd. Mae'r lle yma'n arbenigo mewn cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anableddau. Maent wedi datblygu tîm cryf ac effeithiol, ac wedi ymgymryd â chryn dipyn o hyfforddiant ychwanegol i sicrhau diogelwch staff a phlant drwy gydol y Pandemig."*



### Clwb Allysgol y Flwyddyn

**Clwb Gwyliau Dexters, Pen-y-bont ar Ogwr**

*"Mae'r clwb yma'n un arbennig iawn. Mae fy mhlant wedi ffynnu'n rhyfeddol yno, ac mae'n fan lle y gall plant gymryd risgiau, bod yn fwdlyd, anturio a chreu atgofion a fydd yn para ymhell i'w bywydau fel oedolion. Drwy Covid dyma a wnaeth ein hachub ni – fe wnaeth helpu fy mhlant i deimlo fel plant eto, a'u helpu i gysylltu ag eraill o'r un oed a nhw. Maen nhw'n cael digon o awyr iach ac mae'r staff yn anhygoel – maen nhw i gyd yn gweithio mor galed i wneud i bob plentyn ynodeimlo'n arbennig."*

Dexters



### Hyrwyddwr Chwarae




**Dylan's Den, Rhondda Cynon Taf**

*"Clwb sy'n ymgorffori'r Egwyddorion Gwaith Chware, sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad y staff a hyfforddiant mewn gwaith chwarae; un sydd hefyd ag angerdd ynghylch darparu cyfleoedd chwarae o ansawdd i'r plant sydd yn eu gofal."*

### Hyrwyddwyr Cynhwysiant

Tiny Tots BiG BENs NEW Adventure Club

**Clwb Antur Big Bens, Sir Ddinbych**

*"Dydy mhlant erioed wedi teimlo'n gymaint o ran o deulu mor fawr. Gwnaeth staff y clwb yma nid yn unig ateb anghenion [fy mhlentyn], maen nhw wedi'i wneud o'n hapus ac yn hyderus. Roeddan nhw'n gefnogaeth aruthrol, yn ei gynnwys a'i wneud i deimlo mor hyderus. Mae o wedi dod dros gryn dipyn o'r anawsterau synhwyraidd ac mae ei ymddygiad wedi newid er gwell. Mae pawb yn gydradd ac mae croeso i bawb."*

### Cefnogi Llesiant Staff



**Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol Plasnewydd 2, Caerdydd**

*"Fe wnaeth y pwyllgor gwirfoddol presennol ymuno tuag at ddiwedd 2018, ar adeg arbennig o anodd yn hanes y clwb, ac maen nhw wedi gweithio'n galed i ddal i roi gwybodaeth gyfamserol i'r staff, i gydweithio'n effeithiol ac i sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod o werth ac yn cael eu cefnogi. Mae hyn wedi arwain at amgylchedd gweithio cadarnhaol iawn, yn cynnwys drwy gydol y cyfnod clo, lle rhoddwyd mesurau yn eu lle ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'r staff (e.e. Zoom) a sicrhau bod staff yn derbyn hwb i'w hysbryd (e.e. yn cael cardiau rhodd)."*

### Hyrwyddwr y Gymraeg

CAMP COCONUTS

**Camp Coconuts, Bro Morgannwg**

*"Mae nifer o aelodau staff y lleoliad yma wedi ymdrechu'n egnïol i gynyddu lefel yr iaith Gymraeg a ymgorfforir mewn sesiynau drwy gymryd rhan a chwblhau cwrs Mynediad Camau Dysgu Cymraeg Rhan 1 a 2. Mae'r aelodau hyn o'r staff wedi ymrwymo i wella eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg ynghyd â sicrhau bod yr hyfforddi'n dylanwadu ar arferion yn eu lleoliad. Da iawn."*

### Ymrwymiad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus

Dysgu i chwarae Learn to play Play to learn Chwarae i dysgu

**Little Lambs, Conwy**

*"Mae'r lleoliad yma wedi comisiynau amryw o siaradwyr drwy gydol y flwyddyn i ysbrydoli a datblygu eu staff. Mae'r perchennog yn rhagweithiol iawn ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a hyfforddiant, nid yn unig i gefnogi eu lleoliad eu hunain a'r staff, ond hefyd i helpu i ddatblygu'r sector cyfan. Mae'r lleoliad bod tro'n chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi yn eu tim, i gynyddu hyder y staff mewn dilyn newidiadau neu barhau ag arferion cryf, plentyn-ganolog."*

### Dysgwr y Flwyddyn



**Lucy Watson, Plasnewydd 2, Caerdydd**

*""Gweithiodd y person hwn yn eithriadol o galed i ennill ei Lefel 2 mewn Gwaith chwarae, gan gydbwyso ymrwymiadau personol a goresgyn sawl rhwystr. Gwnaeth ddefnyddio proffiad personol o ddefnyddio darpariaeth mynediad agored fel plentyn i ychwanegu at ei arferion gwaith chwarae.*

*Rwy'n teimlo'n browd iawn o'r person yma a'r hyn y mae wedi llwyddo i'w wneud, ac yn teimlo y dylid cydnabod ei ymdrechion yn fwy eang."*

### Gwirfoddolwr y Flwyddyn



**Sandra Jones, Clwb Plant Amlwch, Ynys Môn**

*"Mae'r person yma wedi ymroi am gyfnod o dros 12 mlynedd fel aelod pwyllgor ac unigolyn cofrestredig. Er bod ganddi fywyd prysur fel nyrs brysur, y mae wedi arolygu sawl blwyddyn o lwyddiant i'r busnes ac wedi gwneud yn sicr fod y clwb yn cadw ei enw da. Mae'r person hwn i ymddeol o'r swydd eleni, ac yn haeddu cydnabyddiaeth o'r fath wirfoddolwr ardderchog a gwerthfawr y mae wedi bod."*

### A allech chi fod yn un o'n henillwyr yn 2023?

Gwyliwch y gwagle yma am wybodaeth ar sut i fod yn rhan o'n Cynhadledd a Seremoni Wobrwyo Allysgol nesaf!

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# Pwysigrwydd Cynllunio Strategol

Mae cynllun strategol â'i ffocws ar amcanion tymor canolig i hir, gan edrych ymlaen at weld newidiadau a thyfiant eich busnes ac yn gymorth i chi ddelweddu dyfodol eich Clwb Allysgol. Bydd hyn yn ategiad at eich cynllun busnes ac yn eich galluogi i weld eich nodau a hefyd i wneud newidiadau, gwelliannau neu addasiadau a fydd yn eich galluogi i reoli unrhyw newidiadau. Gallwch ddod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, gan ddangos arweiniad a rheolaeth gref yn eich clwb. Fe wnaethom gyflenwi gweminar yn ddiweddar ac mae gennym dempledi ar gynllunio strategol y gallwch eu cymryd i adeiladu'ch cynllun strategol.

I gyd-fynd â'r adnoddau hyn rydym hefyd wedi dwyn at ei gilydd 10 peth y mae angen i chi eu hystyried wrth lunio'ch cynllun strategol:

**1. Gwnewch Amser** – Mae gwneud amser i gynllunio ar gyfer dyfodol eich busnes yn hollbwysig, fel mae Covid-19 wedi dangos i ni, peidiwch byth â chymryd yn ganiataol y bydd amgylchiadau busnes yn para'r un fath. Yn awr yn fwy nag erioed, mae angen rhagweithio wrth ystyried cynlluniau eich elusen gofal plant neu fusnes yn y dyfodol.

Os oes gennych gynllun busnes i'ch lleoliad, yna dechreuwch drwy ei adolygu. Gall aelodau o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs nad ydynt ag un o'r rhain eto ddefnyddio ein templedi cynllunio busnes yn ardal aelodau ein gwefan.

**2. Mynnwch gefnogaeth** – Cofrestrwch i ymaelodi â chyfundrefnau cefnogi megis Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Gofalwn Cymru a Busnes Cymru i'ch cefnogi gyda'ch nodau strategol. Mae ymaelodi â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dal yn ddi-dâl hyd at Ebrill 2023.

**3. Cynhwyswch eraill** – Ceisiwch gael cymaint o bobl â phosibl wrth law i gefnogi datblygiad eich busnes; bydd hyn yn fodd i gael syniadau a safbwyntiau newydd, ac i rymuso'r staff a defnyddwyr y gwasanaeth fel ei gilydd i ymrwymo i'ch amcanion fel cyfundrefn.
*Ystyriwch:*
- Yr adnoddau y bydd eu hangen arnoch i gyrraedd eich amcanion – h.y. staff, asedion, sgiliau.
- Sut y byddwch yn cael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol h.y. ffioedd, grantiau, codi arian
- Sut i reoli newid a lliniaru heriau posibl yn y dyfodol h.y. staff, arian.

**4. Datganiad Cenhadol** – Dechreuwch eich cynllun strategol gyda'ch Datganiad Cenhadol. Gallwch gael y wybodaeth ar gyfer hyn o'ch cynllun busnes, cynllun gweithredu, dogfen lywodraethu neu gyfansoddiad, os oes gennych y rhain.
*Ystyriwch:*
- Yr hyn y mae eich sefydliad yn ei gwneud
- O ble y mae eich sefydliad yn gweithredu (yn ddaearyddol, h.y. Sir Gaerfyrddin, Conwy, Gorllewin Cymru, Cymru Gyfan)
- Pwy yw defnyddwyr eich gwasanaeth (h.y. plant, teuluoedd, rhanddeiliaid)
- Sut y byddwch yn cyrraedd eich nod ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth (bod yn ymwybodol o'ch gwendidau wrth ffocysu ar eich cryfderau)

**5. Asesiad o'ch sefydliad** – Bydd yr asesiad ysgrifenedig hwn yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich cynllun hirdymor. Datblygwch eich cynllun strategol drwy ddefnyddio dulliau megis SWOT o'r Saesneg (sy'n dadansoddi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau).
*Ystyriwch:*
- Eich busnes presennol a sut y mae'n gweithredu (y bwriadau os nad yw eto wedi agor)
- Y ffactorau mewnol ac allanol yn awr ac yn y dyfodol a allai gael effaith ar weithrediadau (h.y. yr ysgol yn cael estyniad ymhen dwy flynedd i ddarparu ar gyfer mwy o blant, a sut y gallai hynny effeithio ar eich lleoliad, yn gadarnhaol neu'n negyddol).

**6. Cyfeiriad Strategol** – Dyma amcanion hirdymor eich sefydliad (dros 3-5 mlynedd fel arfer) a dylai manylion hwn gyfateb â thargedau realistig a mesuradwy, sy'n deillio o'ch dadansoddiad SWOT. Ystyriwch sut fyddwch chi'n cyrraedd y nodau a'r targedau hynny, a chynhwyswch Asesiadau Risg sy'n manylu ar sut y byddwch yn lleihau'r bygythiadau.

**7. Cyllidebu** – Cynhwyswch gyllideb fanwl parthed eich cynllun strategol. Faint o arian fydd ei angen arnoch i gyrraedd eich nodau? Mae angen i hyn gynnwys costiadau manwl i gefnogi eich cynllun strategol (h.y. ymhen dwy flynedd, unwaith y bydd yr ysgol wedi cael estyniad, byddem yn rhagweld angen i ganiatáu am gynnydd o 24 o blant, sy'n gofyn am 3 aelod staff ychwanegol). Ac y gysylltiedig â hynny, peidiwch ag anghofio mawrbrisio'ch staff: dyma yn aml gost fwyaf busnes, a chyda recriwtio'n dal i fod yn heriol mewn sawl sector, dyma faes lle gellir tyfu neu dorri busnes. Argymhellir bod gennych lif arian manwl a strategaeth codi arian. Gellir cael hyd i dempled ar gyfer hyn yn ardal aelodau ein gwefan.

**8. Monitro a Gwerthuso** – Unwaith y bydd gennych eich cynllun strategol yn ei le bydd angen i chi fonitro a gwerthuso eich cynnydd o ran cyrraedd y nodau hyn. Bydd angen dangos sut y bwriadwch wneud hyn yn eich Cynllun Strategol. Bydd angen i chi fonitro ffactorau mewnol megis polisïau/gweithdrefnau, staffio, adnoddau, a ffactorau allanol megis nifer y defnyddwyr, adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a.y.b. Bydd y wybodaeth yma'n ddefnyddiol o safbwynt busnes, yn ogystal ag ar gyfer cael hyd i ariannu, a monitro. Mae cynnal cofnodion cywir yn gymorth i roi darlun cywir o'ch busnes, ac yn sicrhau cydymffurfiad â chyrff rheoleiddiol. Cadwch berthnasoedd gweithio cryf â chyrff statudol. Bydd hyn yn help i sicrhau y cewch y lefel orau y gallwch o gefnogaeth.

**9. Mesurwch eich Gwerth Cymdeithasol gydag SROI (erfyn sy'n mesur ad-daliad cymdeithasol buddsoddi)** – Mae hwn yn erfyn defnyddiol i ddangos effaith unrhyw nodau a gyrhaeddwyd neu waith gan eich sefydliad. Mae rhai arfau'n manylu ar 6 ffordd o wneud cyfrifiad o'ch busnes. SROI (Social Return on Investment)
*Enghraifft*
1. Allbwn (h.y. 50 awr o hyfforddiant Gwaith Chwarae i 16 aelod staff)
2. 2. Canlyniadau (h.y. drwy gefnogi'r datblygiad proffesiynol parhaus hwn cynyddodd nifer y staff sy'n gymwysedig mewn Gwaith Chwarae o 25% i 60%)
3. Effaith Ehangach (Mae uwchsgilio'r staff yn gwella ansawdd y ddarpariaeth i blant; gwnaeth hyn yn ei dro gynyddu nifer y plant ar y gofrestr yn ôl 10, ac mae'n sicrhau cydymffurfiad rhwng y gofyniad wrth gofrestru â'r terfyn amser cymhwyso, Medi 2022.)
4. Cyfranogaeth rhanddeiliaid (h.y. a yw'ch canlyniadau wedi eu mesur gan randdeiliaid ymgynghorol, sy'n ymgynghori â'r plant ar sut mae hyfforddiant mewn gwaith chwarae wedi gwella chwarae yn y lleoliad, neu ymgynghori â'r staff i weld sut mae'r hyfforddi wedi effeithio arnyn nhw?).
5. Mesur y cynnydd a wnaed (h.y. monitro'r cynnydd yn y nifer o staff y lleoliad sy'n gymwysedig mewn Gwaith Chwarae o flwyddyn i flwyddyn, neu fonitro'r cynnydd o ran niferoedd y plant sy'n mynychu)
6. Gwerthoedd ariannol (h.y. mae'r cymwysterau gwaith chwarae'n costio ** i'w cwblhau; mae cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu wedi golygu cynnydd o ** mewn ffioedd yn wythnosol)

**10. Adolygu** – Myfyriwch ac addaswch y gwasanaethau a ddarparwch yn rheoliad er mwyn cyrraedd eich amcanion craidd. Mae arferion myfyriol yn cefnogi'r arferion gorau. Gellir defnyddio dulliau myfyrio/waith damcaniaethwyr megis Kolb i'r pwrpas hwn.
*Pryd?*
- cyn agor busnes
- pan fyddwch yn cynllunio newidiadau trefniadol mawr (h.y. ehangu)
- pan fydd amgylchiadau allanol yn newid (e.e. heriau Covid yn effeithio ar refeniw lleoliadau)
- bob 3 i 5 blynedd (yn ôl eich cynllun strategol)

Peidiwch ag anghofio! Ystyriwch eich cynllun strategol o bryd i'w gilydd mewn ffordd ddeinamig i gael y canlyniadau gorau o'ch ymdrechion, a pheidiwch ag anghofio gofyn am gefnogaeth os bydd angen! Cysylltwch â ni: info@clybiauplantcymru.org





## Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.

## e-newyddion


Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef **www.clybiauplantcymru.org** ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost i membership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.



# Codi Arian

Bydd nifer o Glybiau Gofal Plant Allysgol ar ryw adeg yn edrych am arian ychwanegol i brynu cyfarpar neu adnoddau newydd. Ond cyn edrych ar wahanol ffyrdd o gael mwy o arian mae ychydig o gamau elfennol i'w cymryd:

Mae angen i chi sefydlu na all, ac na fydd, unrhyw arian a ddelir yn y cyfrif banc ar hyn o bryd yn ddigonol ar gyfer yr hyn yr ydych am ei gyflawni; man cychwyn da i gynorthwyo gyda hyn yw adolygiad o'ch Polisi Arian-wrth-gefn. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi datblygu Polisi Arian-wrth-gefn, a gwelir templed yn ardal aelodau ein gwefan.



**Stepping Out: A Guide to Setting Up an Out Of School Childcare Club**
**Camu Allan: Arweiniad i Sefydlu Clwb Gofal Plant Allysgol**

**Step 12: Business Templates | Cam 12: Templedi Busnes**

**Polisi Cronfeydd-wrth-gefn**

**Arweiniad**

Mae gan leoliadau Gofal Plant Allysgol strwythurau llywodraethol / busnes amrywiol, ond yr hyn sy'n gyffredin iddynt yw eu bod yn ddibynnol ar incwm o ffioedd er mwyn gweithredu.

Yn rhan o gynllunio ariannol a busnes da, mae'n bwysig bod â pholisi cronfeydd-wrth-gefn yn ei le, gan ganiatáu am y cynllunio a'r esboniad pam fod swm arbennig o arian yn cael ei osod o'r neilltu.

Mae polisi cronfeydd-wrth-gefn da yn rhoi hyder i arianwyr a rhanddeiliaid posibl fod sefyllfa ariannol y Lleoliad yn cael eu rheoli'n dda, a bydd hefyd yn rhoi arwydd o'r anghenion ariannu yn y dyfodol a'i wydnwch cyffredinol. Dylai osod gerbron:

- faint y mae angen i'ch Lleoliad ei gadw wrth gefn a pham
- sut a pha bryd y gellir gwario cronfeydd-wrth-gefn eich Lleoliad
- pa mor aml y bydd y polisi cronfeydd-wrth-gefn yn cael ei adolygu

Unwaith eich bod yn gwybod y sefyllfa ac wedi cytuno ar isafswm yr arian-wrth-gefn y mae angen ichi eu cadw, a'ch bod yn gweld yr angen i godi arian, bydd angen i chi gael cynllun clir. Dylai cynllun sylfaenol gynnwys:

- I beth ydych chi'n codi arian? Ai am reswm arbennig h.y. cyfarpar, adnoddau, gweithdy?
- Faint sydd angen i chi ei godi?
- Beth fydd eich digwyddiad?
- Dyddiad ac amser; pan fyddwch yn cytuno ar ddyddiad, a ellir ei gysylltu â diwrnod neu wythnos genedlaethol?
- Sut fyddwch chi'n marchnata'ch digwyddiad?
- Faint fydd y digwyddiad yn ei gostio i'w gyflenwi h.y. bwyd, gwobrau a.y.b.?
- A allwch chi weithio mewn partneriaeth h.y. ag ysgol, darparwr gofal plant arall?

Bydd dirprwyo tasgau penodol yn gwneud trefnu unrhyw ddigwyddiad codi arian yn broses llawer llyfnach, felly bydd angen cytuno ar hyn hefyd.

Yr wythnosau cenedlaethol a allai gefnogi syniadau am ddigwyddiadau yw:

- Wythnos Genedlaethol y Picnic Mehefin18fed – Mehefin 26ain 2022
- Wythnos Te Prynhawn Awst 8fed – 14eg 2022

Mae'r tywydd yn cynhesu, felly byddwch â'r blancedi picnic yn barod, neu gallech gynnal parti gardd. Gwerthwch docynnau cyn y digwyddiad er mwyn ichi wybod faint o stoc fydd ei angen a faint o bobl a fydd yn mynychu'ch digwyddiad codi arian.

Cynhwyswch y plant wrth wneud y bwyd, y posteri a'r addurniadau, yn ogystal â dweud wrth bawb o'u cydnabod i ddod draw/i brynu tocynnau.

**Bingo**
Mae'n Ddiwrnod Cenedlaethol Bingo ar Fehefin 27ain 2022, felly beth am gasglu'ch ffrindiau, teulu a chydweithwyr ynghyd i gael hwyl. Mae digwyddiad bingo i godi arian yn ffordd gymdeithasgar a hwyliog o godi arian i'r elusen o'ch dewis, mae'n hawdd i'w redeg a gallwch ei gynnal yn unrhyw le bron iawn - yn eich cartref, lle gwaith, ar-lein neu'n bersonol.

Gall y plant a'u teuluoedd roi gwobrau, neu ofyn i fusnesau lleol.




**Raffl**
Ewch at fusnesau lleol i ofyn am wobrau, a hysbysebwch yn eang i werthu tocynnau; gallech dynnu'r raffl ar facebook neu yn ystod sesiwn y clwb.

# Cwrdd â'r Clwb!

## Yellow Bunnies

Mae Yellow Bunnies yn gwmni cyfyngedig sydd wedi ei leoli yng Nghasnewydd, De-ddwyrain Cymru. Mae hwn yn glwb sydd wedi ei hen sefydlu, sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac sy'n gwmni cyfyngedig cofrestredig mewn darpariaeth gofal dydd. Fe wnaethom ofyn ambell i gwestiwn er mwyn deall ychydig bach yn fwy amdanynt a'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig.

**A oes gennych unrhyw 'bwyntiau gwerthu unigryw' (USP) i'ch clwb?** Rydym wedi ein lleoli mewn lle arbennig o dda yn Sir Casnewydd. Rydym ar agor o 7yb, tra bo'r mwyafrif ar agor o 8yb. Rydym yn casglu o fwy o ysgolion/meithrinfeydd nag unrhyw leoliad arall yn yr ardal.

**Beth sydd wedi'ch herio fwyaf fel lleoliad hyd yma, a sut wnaethoch chi oresgyn hynny?** Yr her fwyaf i ni, fel yn achos y mwyafrif, oedd sefyllfa Covid. Roedd diffyg galw amdanom gan i rieni naill ai gael eu rhoi ar saib swydd, neu bydden nhw'n gweithio o gartref. Yn anffodus roedd yn rhaid i ni gwtogi ar ein haelodau staff a gweithio fel tîm i oresgyn yr heriau. Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi ohoni'n iawn, ac wedi gallu recriwtio rhagor o staff.

**Beth yw'r peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Mae pob wythnos yn un wahanol, gwahanol heriau a gwahanol alwadau gan y plant. Mae ganddyn nhw gymaint o syniadau o'r pethau yr hoffent eu gwneud a'r heriau newydd y maen nhw'n gosod i'w hunain. Mae ein clwb ni yn bendant o dan arweiniad y plant; gall y plant fod yn nhw eu hunain a mwynhau eu hamser gyda ni.

**Beth yw'ch hoff atgof o ran y clwb?** Pan wnaethon ni roi i'r plant y rhyddid i ddefnyddio'r man chwarae y tu allan, fe wnaethon nhw osod ffiniau i'w hunain, roedden nhw'n rhyfeddol! Roedden nhw wrth eu boddau'n gosod heriau iddyn nhw eu hunain; pwy allai ddringo uchaf a chyflymaf, ac roedden nhw wedi'u cyffroi gymaint gyda'r cyfarpar a'r rhyddid. Gwaith Chwarae ar ei orau!

**Beth mae'r plant yn hoff o'i wneud fwyaf pan fyddan nhw yn eich clwb chi?** Maen nhw'n mwynhau rhyddid y chwarae, maen nhw'n dewis beth maen nhw am ei wneud; maen nhw'n gwneud ffrindiau â phlant eraill mewn gwahanol ysgolion ac yn ffurfio perthnasoedd a fydd yn para am flynyddoedd, drwy'r rhyddid sydd ganddyn nhw gyda ni.







# Ymddiriedolwyr

### Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn recriwtio gwirfoddolwyr i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr



A oes modd i chi wirfoddoli'ch amser, eich profiad a'ch arbenigedd i helpu'r sector Allysgol yng Nghymru? Rydym yn edrych am Ymddiriedolwyr i gynrychioli clybiau yng Ngogledd a Gorllewin Cymru, ac i gymryd rolau'r Ymddiriedolwr Marchnata a Chyfathrebu, a Thrysorydd/Goruchwyliwr Ariannol yr Elusen.

**Ein gweledigaeth** yw Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu.

**Ein cenhadaeth** yw bod yn llais Clybiau Gofal Plant Allysgol yng Nghymru, gan gefnogi hawl plant i chwarae, a gofal plant o ansawdd sydd yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a chymunedau.

Os hoffech wybod mwy am fod yn Ymddiriedolwr Gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs neu eich Clwb Allysgol lleol, yna cysylltwch â Jane O'Toole (PSG) yn janeo@clybiauplantcymru.org.

Am fwy o wybodaeth am ein sefydliad a'n hamcanion strategol ewch www.clybiauplantcymru.org/about-us.

# Cwrdd â'r Gweithwyr Chwarae

**Enw:** Nicola Parry

**Clwb:** Severn Care Club, Caerdydd

**Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sector gofal plant Allysgol?** Dwi wedi bod yn gweithio yn y sector gofal plant Allysgol ers 20 mlynedd!

**Beth yw'ch 2 gyngor campus ar helpu pethau i redeg yn esmwyth mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Fy 2 gyngor i ar helpu pethau i redeg yn esmwyth yn fy nghlwb fyddai gwaith tîm a sgiliau trefnu, heb y rhain mi fyddai'n draed moch yn y clwb ma.

**Beth fyddai'r darn gorau o gyngor y byddech yn ei roi i'r chi ifanc wrth ddechrau ar eich gyrfa mewn gwaith chwarae?** Y darn gorau o gyngor fyddwn i'n ei roi i'r fi ifanc wrth ddechrau ar fy ngyrfa mewn gwaith chwarae fyddai: Dwi'n caru fy ngwaith ac yn difaru na ddechreuais i pan oeddwn i'n ifancach, nid yn hwyrach mewn bywyd. Dim jobyn yw hwn. Dwi'n hoff iawn o weld y plant yn hapus. Mae'n rhoi boddhad mawr.

**Petai'n rhaid i chi ddweud yn gryno mewn 3 gair pam ry'ch chi'n caru'ch gwaith, beth fydden nhw?** boddhad, syndod a phleser.

**Beth yw'ch hoff beth a welsoch wedi ei greu gan y plant o rannau rhydd?** Mae'n rhaid mai'r offerynnau cerdd o diwbiau Pringle, tiwbiau papur toiled a reis fyddai hynny. Roedd y plant hefyd wrth eu boddau gwneud darluniau o gaeadau poteli a chregyn môr.

**Enw:** Chloe Adams

**Clwb:** Dylans Den, Rhondda Cynon Taf

Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sector gofal plant Allysgol? Fe wnes i hyfforddi gynta fel Gweithiwr Chwarae 17 blynedd yn ôl.

**Beth yw'ch 2 gyngor campus ar helpu pethau i redeg yn esmwyth mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Fy 2 gyngor i fyddai cael digon o rannau rhydd ac adnoddau y gallwch wneud unrhyw beth â nhw, ac yna GADEWCH I'R PLANT CHWARAE'N RHYDD.

**Beth fyddai'r darn gorau o gyngor y byddech yn ei roi i'r chi ifanc wrth ddechrau ar eich gyrfa mewn gwaith chwarae?** Fy nghyngor i'r fi ifancach fyddai 'Peidiwch ag ymyrryd yn chwarae'r plant. Os byddan arnyn nhw eich angen, fe wnawn nhw ofyn.'

**Petai'n rhaid i chi ddweud yn gryno mewn 3 gair pam ry'ch chi'n caru'ch gwaith, beth fydden nhw?** Gwaith Gorau Rioed!

**Beth yw'ch hoff beth a welsoch wedi ei greu gan y plant o rannau rhydd?** Tai, ceir, telesgopau, hetiau, mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

**Enw:** Fiona Deakin

**Clwb:** Raglan Rascals, Sir Fynwy
Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sector gofal plant Allysgol? Rwyf wedi bod yn gweithio yn Rascals ers 2003 ac wedi bod yn rheolwr ers 2015.

**Beth yw'ch 2 gyngor campus ar helpu pethau i redeg yn esmwyth mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Byddwch yn hyblyg, a byddwch â digon o egni.

**Beth fyddai'r darn gorau o gyngor y byddech yn ei roi i'r chi ifanc wrth ddechrau ar eich gyrfa mewn gwaith chwarae?** Dilynwch eich breuddwydion.

**Petai'n rhaid i chi ddweud yn gryno mewn 3 gair pam ry'ch chi'n caru'ch gwaith, beth fydden nhw?** Dwi'n caru fy ngwaith achos dyw e ddim yn teimlo fel gwaith, mae pob dydd yn wahanol ac mae'r plant hefyd yn eich synnu.

**Beth yw'ch hoff beth a welsoch wedi ei greu gan y plant o rannau rhydd?** Ry'n ni wedi gweud llond gwlad o grefftau gyda'r plant, ond fyddwn i'n dweud bod y rhai gorau'n dod o wneud crefftau Nadolig gyda nhw.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# Gweithgareddau







## Matiau lle blodau gwasgedig

**Beth fydd eu hangen arnoch:**

- Blodau
- Dail
- Papur cyffwrdd clir
- Papur adeiladwaith/papur siwgr
- Sisyrnau

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Casglwch ynghyd y blodau a'r dail y byddwch yn eu defnyddio i wneud y matiau lle.
2. Cymerwch bennau'r blodau a'r dal o'u coesynnau, gosodwch nhw ar y papur adeiladwaith a threfnwch nhw fel y mynnwch.
3. Am bob yr hoffech ei wneud torrwch ddau ddarn o bapur cyffwrdd clir, tua 9"x12" o faint.
4. Piliwch y cefn oddi ar un darn o bapur cyffwrdd a'i osod – ochr ludiog ar i fyny – ar y bwrdd.
5. Trefnwch y blodau a'r dail ar ochr ludiog y papur cyffwrdd.
6. Gwasgwch y blodau i lawr fel eu bod yn gorwedd yn wastad ar y papur cyffwrdd.
7. Piliwch y cefn oddi ar y darn o bapur cyffwrdd sy'n weddill, gorchuddiwch eich mat lle yn ofalus â'r papur cyffwrdd (ochr ludiog yn wynebu i lawr), gwnewch hyn yn araf i osgoi swigod aer a chrychau.
8. Gwasgwch i lawr i wneud eich mat lle'n wastad eto i lyfnhau unrhyw grychau, ac yna defnyddiwch y siswrn i dorri'r ymylon i ffwrdd os bydd angen.
9. A dyna chi'n barod i hwylio'r bwrdd!

## Hel Llau

**Beth fydd arnoch eu hangen:**

- Cynhwysydd clir
- Netin
- Band rwber
- Llwy
- Banana oraeddfed
- Siwgr brown
- Chwyddwydr

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Cymerwch rywbeth melys fel banana a siwgr brown wedi ei wasgaru ar ei phen a'i adael y tu allan.
2. Gadewch i'r gymysgfa fanana yma aros y tu allan dipyn ac yna taenwch hi ar hyd rhisgl coeden.
3. Gwiriwch yn rheolaidd i weld pa lau newydd rydych wedi'u denu yno.
4. Edrychwch drwy'r chwyddwyr a gwnewch luniad o'r hyn a welwch.
5. Os ydych am wylio lleuen arbennig, rhowch ef mewn cynhwysydd clir gyda rhywfaint o ddŵr, ffon ac ambell ddeilen werdd.
6. Gorchuddiwch y cynhwysydd â netin.
7. Gwnewch eich arsylwadau neu luniadau.
8. Dychwelwch eich lleuen i'r lle y gwnaethoch ddod o hyd iddo o fewn pedair awr ar hugain.

## Gwnewch gebab aderyn

**Beth fydd eu hangen arnoch:**

- Afalau
- Bara
- Caws caled
- (torrwch y cyfan uchod yn ddarnau maint-ciwb)
- Rhesins
- Gwifren blodau
- Llinyn

**Beth fydd angen i chi ei wneud:**

1. Gyda gofal gwthiwch y wifren blodau drwy bob darn o fwyd, gan adael tua 8cm ar bob pen. Plygwch y pennau'n fachau bychain.
2. Plygwch y wifren i ffurfio cylch, gan ddal y pennau gyda'i gilydd.
3. Clymwch ddolen o linyn ar y cylch o wifren a rhowch eich cebab danteithiol i hongian yno i'r adar ei fwyta.

## Hel sbarion

**Bydd fydd arnoch eu hangen:**

- Un fasged i bob chwaraewr
- Rhestr o'r gwrthrychau naturiol i'r chwaraewyr unigol eu casglu

**Beth fydd angen i chi ei wneud**

1. Rhowch fasged i bob chwaraewr a rhestr o wrthrychau naturiol i'w casglu (er enghraifft, pluen aderyn, deilen, carreg lefn, côn pîn, blodyn gwyllt ac yn y blaen).
2. Gallwch roi'r un rhestr i'r holl chwaraewyr neu ofyn i bob chwaraewr unigol chwilio am wahanol grŵp o wrthrychau.
3. Heriwch y chwaraewyr i ddod o hyd i bob gwrthrych ar eu rhestrau.
4. Gosodwch derfyn amser.
5. Y chwaraewr cyntaf i ddod o hyd i'r holl eitemau ar eu rhestr yw'r enillydd.
6. Gall plentyn chwarae'r gêm hon ar ei ben ei hun neu gydag eraill. Yn achos grŵp o blant, parwch y rhai nad ydyn nhw'n darllen â'r rhai sy'n darllen.

